Mai 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn ac roedd yn cynnwys Steve Frank, Gareth Jones, Euros Lake a Sara Leahy o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yn diwallu anghenion oedolion ag anableddau dysgu o ran llety, ond mae'r trefniadau comisiynu presennol yn annhebygol o fod yn addas at y diben yn y dyfodol | 6 |
| | Crynodeb o'n canfyddiadau | 8 |
| | Argymhellion | 10 |
| 1. | Mae'n bosibl bod y dull o gomisiynu llety i bobl ag anableddau dysgu yn anghynaliadwy | 14 |
| | Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu y mae awdurdodau lleol yn darparu llety ar eu cyfer yn cynyddu ac, er bod y ddarpariaeth bresennol yn cadw i fyny â'r galw, mae rhai heriau yn gysylltiedig â phroffil newidiol y galw | 15 |
| | Mae gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'n anodd nodi pam mae gwariant awdurdodau yn amrywio'n fawr | 17 |
| | Mae ein gwaith modelu yn awgrymu, ar lefel Cymru gyfan, fod y ddarpariaeth yn cadw i fyny â'r twf rhagamcanol ond bod traean o'r awdurdodau yn wynebu dewisiadau pwysig ynglŷn â sut y byddant yn ateb y galw am lety yn y dyfodol | 22 |
| | Nid yw lefelau presennol o wariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu yn ddigonol i gadw i fyny â chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau | 24 |

2. Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar gyfer comisiynu gwasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu 26

Nid yw pob awdurdod lleol wedi datblygu opsiynau comisiynu strategol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynwyd 27

Nid yw strategaethau comisiynu bob amser yn arwain at opsiynau costeffeithiol ar gyfer gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu 31

Mae trefniadau cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol yn datblygu'n raddol, ond mae gweithgarwch ymgysylltu â Byrddau Iechyd yn amrywio 33

Mae adnoddau i ategu'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn amrywio'n fawr 35

Nid yw gweithgarwch ymgysylltu awdurdodau lleol bob amser yn ymateb i anghenion pobl ag anableddau dysgu na'u gofalwyr 36

3. Mae dulliau aneffeithiol o werthuso canlyniadau gwasanaethau anableddau dysgu yn golygu nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gallu dangos effaith gadarnhaol eu dewisiadau o ran comisiynu llety 41

Nid yw llawer o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau canlyniadau clir i'w galluogi i farnu effaith eu gweithgarwch comisiynu 42

Mae prosesau goruchwylio a chraffu ar berfformiad amrywiol yn rhwystro gwaith gwerthuso 44

## Atodiadau


Atodiad 1: Methodoleg yr Astudiaeth 48

Atodiad 2: Nifer y bobl 16 oed a throsodd sydd ag anableddau dysgu a gynorthwywyd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol 2008-09 a 2015-16 49

Atodiad 3: Y newid mewn termau real mewn gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol ar gyfer pobl 16 oed a throsodd rhwng 2009-10 a 2015-16 50

Atodiad 4: Amcanestyniadau o’r boblogaeth ar gyfer nifer y bobl ag anabledd dysgu yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2035 52

Atodiad 5: Amcanestyniadau o’r boblogaeth ar gyfer nifer y bobl ag anabledd dysgu a’r rhai ag anableddau dysgu cymedrol neu ddifrifol yng Nghymru rhwng 2015 a 2035 yn ôl grŵp oedran 53

Atodiad 6: Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 yn ôl awdurdod lleol wedi’u grwpio ar ôl troed Byrddau Iechyd 54

Atodiad 7: Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 wedi’u grwpio yn ôl nodweddion daearyddol ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol 55

Atodiad 8: Cymharu’r tri awdurdod â’r gost gyfartalog isaf ac uchaf fesul lleoliad mewn llety â’u sgôr ar gyfer defnyddio mathau gwahanol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu yn 2015-16 56

Atodiad 9: Gwariant rhagamcanol ar wasanaethau llety gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu erbyn 2035 57

Atodiad 10: Rhestr wirio er mwyn i Aelodau etholedig oruchwylio’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau llety anableddau dysgu yn strategol 58

# Adroddiad Cryno

## Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yn diwallu anghenion oedolion ag anableddau dysgu o ran llety, ond mae'r trefniadau comisiynu presennol yn annhebygol o fod yn addas at y diben yn y dyfodol

1 Gall gwasanaethau gofal cymdeithasol fod yn hollbwysig er mwyn helpu pobl ag anabledd dysgu i fyw eu bywyd yn y ffordd a ddewisant, a bydd lefel y cymorth a gynigir yn dibynnu ar asesiad o unigolyn a'i gyflwr. Ychydig iawn o help neu gymorth sydd ei angen ar rai pobl, a phrin bod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau, os oes angen iddynt eu defnyddio o gwbl, tra bod angen gofal a chymorth llawn amser ar eraill ym mhob agwedd ar eu bywydau. Gall cymorth fod ar sawl ffurf, gan gynnwys helpu rhywun i godi a gwisgo, gwneud ffrindiau a meithrin cydberthnasau, neu wneud gweithgareddau ystyrlon a bod yn rhan o'r gymuned leol.

**Yr hyn a olygwn gan bobl ag anableddau dysgu[1]:**

Gallu deallusol is yw anabledd dysgu ac anhawster i wneud gweithgareddau bob dydd – er enghraifft, gwaith tŷ, cymdeithasu neu reoli arian – sy'n effeithio ar unigolyn drwy gydol ei fywyd. Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gymryd mwy o amser i ddysgu ac efallai y bydd angen cymorth arnynt i ddatblygu sgiliau newydd, deall gwybodaeth gymhleth a rhyngweithio â phobl eraill. Mae lefel y cymorth sydd ei angen ar rywun yn dibynnu ar yr unigolyn. Er enghraifft, efallai mai dim ond cymorth i wneud pethau fel dod o hyd i waith y bydd ei angen ar unigolyn ag anabledd dysgu ysgafn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gofal a chymorth llawn amser ar rywun ag anabledd dysgu difrifol a hynny ym mhob agwedd ar ei fywyd – efallai y bydd ganddo anableddau corfforol hefyd.


2 Gall y rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu fyw bywydau annibynnol os cânt y cymorth priodol ond, wrth i adnoddau leihau, mae cynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol yn dod yn fwyfwy pwysig a heriol. Mae'r pwysau i ddod o hyd i fwy o arbedion effeithlonrwydd wrth wella llesiant yn gorfodi awdurdodau lleol i chwilio am ffyrdd gwahanol o gyflawni gwell canlyniadau i bobl. Gellir defnyddio gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, adolygiadau rheolaidd gan reolwyr gofal medrus a mewnbwn allanol gan bartneriaid, staff, eiriolwyr a theuluoedd i greu gwasanaethau sy'n sicrhau gwell canlyniadau mewn ffordd fwy costeffeithiol.

1 https://wales.mencap.org.uk/cy/node/1428?q=about-mencap-cymru

3 Gall y rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu fyw bywydau annibynnol os cânt y cymorth priodol ac, felly, wrth i adnoddau leihau, mae cynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol yn dod yn agwedd fwyfwy pwysig ar bolisi cyhoeddus yng Nghymru. Comisiynu yw'r broses lle y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol eu cynllunio, eu prynu a'u monitro. Mae comisiynu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yn effeithiol yn golygu rhoi'r unigolyn wrth wraidd y broses o nodi anghenion a'i helpu i wneud dewisiadau ynglŷn â sut y caiff ei gynorthwyo i fyw ei fywyd.

4 Er bod modelau comisiynu yn amrywio, mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau o gomisiynu yn nodi rhai camau cydgysylltiedig craidd, fel y nodir yn Arddangosyn 1 isod. Mae'r rhain yn cynnwys asesu anghenion pobl; pennu blaenoriaethau a datblygu strategaethau comisiynu er mwyn diwallu'r anghenion hynny; prynu nwyddau a sicrhau gwasanaethau gan ddarparwyr er mwyn diwallu anghenion; ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a chymunedau, a'u cynnwys ar gamau allweddol yn y broses; monitro a gwerthuso canlyniadau; a diwygio cynlluniau, asesiadau o anghenion a gwasanaethau yng ngoleuni gwaith gwerthuso.

Arddangosyn 1 – Camau allweddol y cylch comisiynu




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Mae'r gwariant cyffredinol ar faes anableddau dysgu yng Nghymru wedi cynyddu 6.8% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) ers 2008-09. Yn 2015-16, gwariant gros y 22 o awdurdodau lleol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu (oedolion o dan 65 oed) oedd £398.5 miliwn. Gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddi adnoddau'n briodol, mae awdurdodau yn canolbwyntio fwyfwy ar sut i gael y budd mwyaf posibl o'r gwasanaethau a gomisiynir ganddynt.


6 Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar asesu a oes gan awdurdodau lleol ddulliau effeithiol o gomisiynu llety i oedolion ag anableddau dysgu (y rhai dros 16 oed)[2]. Nodir ein dulliau adolygu yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith maes archwilio mewn pum awdurdod lleol; dadansoddiad manwl o berfformiad a gwariant cyfredol; modelu twf a chostau yn y dyfodol; adolygiadau o wefannau a dogfennau; a chyfweliadau â nifer o sefydliadau cenedlaethol. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn diwallu anghenion oedolion ag anableddau dysgu o ran llety, ond mae'r trefniadau comisiynu presennol yn annhebygol o fod yn addas at y diben yn y dyfodol.**

## Crynodeb o'n canfyddiadau

7 Nid yw awdurdodau lleol yn llawn sylweddoli pa mor gymhleth yw'r broses o ddiwallu anghenion llety hirdymor pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny. Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn llawer o feysydd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud mwy i integreiddio gwasanaethau a datrys nifer o heriau cymhleth er mwyn iddynt gyflawni'r nod o ddarparu gwasanaethau llety cynaliadwy.

8 Mae buddsoddiad cyfredol gan awdurdodau lleol yn cadw cam gyda'r galw ac mae awduron yn parhau i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, amcangyfrifwn y bydd angen i awdurdodau gynyddu'r buddsoddiad mewn llety £365 miliwn yn ystod yr 20 mlynedd nesaf er mwyn ymdrin â chynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu y bydd angen tai arnynt a'r cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymedrol neu ddifrifol. O gofio bod traean o'r awdurdodau wedi cwtogi ar wariant a gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bydd yr her hon yn arbennig o feichus.

2 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gofal cymdeithasol a chymorth oedolion i bobl 16 oed a throsodd. Lle mae'r data sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at bobl 18 oed rydym yn nodi hyn. Gall pobl ddiffinio pethau mewn ffyrdd gwahanol felly, lle y ceir gwahaniaeth o ran ystyr, rydym wedi dilyn cyngor arbenigol ar y diffiniad mwyaf priodol. Nid yw ein hadroddiad yn rhagnodi atebion, lefelau staffio na modelau cost penodol.




9 Mae angen data ariannol a data poblogaeth o ansawdd gwell ar awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau mwyaf hyddysg. Mae gormod o awdurdodau lleol nad oes ganddynt ddealltwriaeth gyffredin o faint y dasg sy'n gysylltiedig â chynnal llesiant pobl ac nad ydynt yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, partneriaid na darparwyr gwasanaethau yn y broses o ddod o hyd i ffordd gynaliadwy a chosteffeithiol ymlaen.

10 Mae **Rhan 1** o'r adroddiad hwn yn ystyried a yw awdurdodau lleol yn mynd ati mewn ffordd ystyriol a chynlluniedig i gomisiynu gwasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu. Rydym yn ystyried pa mor dda yw awdurdodau lleol o ran cynllunio ar sail patrymau galw ac ystyried faint sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar wahanol fathau o wasanaeth. Rydym hefyd yn amcangyfrif y lefelau o fuddsoddiad sydd ei angen er mwyn cadw i fyny â newid demograffig.

11 Mae **Rhan 2** yn ystyried a oes gan awdurdodau lleol y systemau cywir ar waith i gomisiynu a darparu gwasanaethau llety. Mae'r rhan hon yn ystyried gweithgarwch cynllunio'r gweithlu, cydgomisiynu a pha mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu a darparwyr gwasanaethau wrth ystyried opsiynau a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

12 Yn olaf, mae **Rhan 3** yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn adolygu effaith y gwaith o gomisiynu gwasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn craffu ar yr hyn a wnânt ac, felly, pa mor dda y maent yn deall beth sy'n gweithio'n dda a pham.

## Argymhellion

13 Mae ein gwaith wedi nodi cyfres o argymhellion ar gyfer gwella a nodir y rhain isod. Yn Atodiad 11, rydym hefyd wedi cynnig rhestr wirio er mwyn helpu aelodau craffu awdurdodau lleol i gynnal hunanasesiad a nodi opsiynau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau anableddau dysgu eu comisiynu.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Mae gan bobl ag anabledd dysgu hawl i fyw'n annibynnol. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf bu newidiadau sylweddol o ran y ffordd y caiff lety a chymorth eu darparu. Mae gwasanaethau bellach yn cael eu darparu gan ddefnyddio model sy'n galluogi pobl i fyw yn y gymuned mewn tai cyffredin ledled Cymru (paragraffau 1.3 i 1.10). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:**<br>• **gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham;**<br>• **gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau;**<br>• **gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnerth a hunanddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd; a**<br>• **rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.** |
| A2 | Dengys amcanestyniadau o'r boblogaeth y bydd nifer y bobl ag anabledd dysgu yn cynyddu yn y dyfodol ac y bydd nifer y bobl dros 65 oed a nifer y bobl ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn cynyddu'n sylweddol (paragraffau 1.3 i 1.10). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol.** |

**Argymhellion**

A3 Lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol, o'r enw 'developing a commissioning strategy for people with a learning disability', er mwyn helpu awdurdodau i lunio cynlluniau strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu. Ar y cyd â chodau ymarfer a ddatblygwyd yn sgil pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu opsiynau comisiynu integredig gyda gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol. Y nod yw darparu dull cydgysylltiedig a chosteffeithiol o gomisiynu gwasanaethau ond nododd ein hadolygiad wendidau yn y trefniadau presennol (paragraffau 2.4 i 2.12). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:**

- **deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;**
- **gwella ansawdd cydgynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);**
- **sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgynllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlflwydd; a**
- **datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A4 | Mae gweithgarwch ymgysylltu awdurdodau lleol â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn amrywio. Er bod gan lawer o wasanaethau awdurdodau gydberthnasau cadarnhaol â grwpiau eirioli, mae rhai yn llai llwyddiannus wrth gynnwys y grwpiau a'r gofalwyr hyn yn y broses o werthuso ansawdd gwasanaethau (paragraffau 2.18 i 2.20). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:**<br>• **cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;**<br>• **cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;**<br>• **cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a**<br>• **sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith.** |
| A5 | Gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys darparwyr gwasanaethau mewn gweithgarwch comisiynu a gwneud y broses dendro yn fwy effeithiol drwy sicrhau ei bod yn haws i'w defnyddio ac yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol mor effeithiol ag y dylent fod wrth ymgysylltu â darparwyr (paragraffau 2.28 i 2.38). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:**<br>• **gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a**<br>• **gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.** |


## Argymhellion

A6 Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso'r ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu (paragraffau 3.3 i 3.15). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol:**

- **llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;**
- **sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;**
- **rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a'r dechnoleg briodol;**
- **integreiddio'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;**
- **gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a**
- **cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau.**

# Rhan 1

## Mae’n bosibl bod y dull o gomisiynu llety i bobl ag anableddau dysgu yn anghynaliadwy



1.1 O ystyried y pwysau ariannol cynyddol sydd arnynt mewn cyfnod o gyni cyllidol, mae'n bwysicach fyth bod awdurdodau yn cydbwyso'r angen i ddarparu llety diogel o ansawdd da ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a'r nod o wneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau gwerth am arian. Er mwyn gwneud hyn yn dda, mae angen i staff comisiynu a chynllunwyr ddefnyddio amcanestyniadau o'r boblogaeth ac amcanestyniadau demograffig i nodi'r galw am wasanaethau llety sy'n bodloni dyheadau pobl ag anableddau dysgu orau yn y dyfodol. Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried y galw presennol am wasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu. Rydym hefyd yn ystyried y gwariant presennol ac yn dadansoddi costau er mwyn nodi pa mor ddarbodus yw'r ddarpariaeth bresennol a deall amrywiadau rhanbarthol ac economaidd-gymdeithasol. Yn olaf, rydym yn modelu'r galw am lety yn y dyfodol, gan dynnu sylw at rai heriau sy'n wynebu rhai awdurdodau, ac yn rhagamcanu'r costau ychwanegol y bydd angen i awdurdodau fynd iddynt, o bosibl, yn y dyfodol.

## Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu y mae awdurdodau lleol yn darparu llety ar eu cyfer yn cynyddu ac, er bod y ddarpariaeth bresennol yn cadw i fyny â'r galw. Mae proffil newidiol y galw yn codi rhai heriau i awdurdodau yn y dyfodol

1.2 Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am nifer y bobl ag anableddau dysgu yn y boblogaeth ac ni chofnodir anableddau dysgu yn y cyfrifiad ychwaith. Fodd bynnag, mae'n bosibl amcangyfrif nifer y bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru drwy ddefnyddio gwybodaeth gan Daffodil[3]. Yn 2015 amcangyfrifwyd bod 58,300 o oedolion ag anableddau dysgu yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae tua 20% o gyfanswm amcangyfrifedig y boblogaeth oedolion sydd ag anableddau dysgu yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Bu cynnydd o ychydig dros 900 yn nifer yr oedolion ag anableddau dysgu sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol ers 2008-09[4]. Yn gymesur, mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl iau yn lleihau ac mae nifer y bobl 65 oed a throsodd ag anableddau dysgu sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cynyddu. Mae Atodiad 2 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r data.

3 Y system we a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae Daffodil yn helpu sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gynllunio gwasanaethau drwy ddarparu amcanestyniadau o'r boblogaeth er mwyn nodi'r angen posibl am ofal.

4 Rydym wedi defnyddio 2008-09 fel man cychwyn ar gyfer ein dadansoddiad am mai hon yw'r flwyddyn olaf cyn i lywodraeth glymblaid y DU 2010-2015 gyflwyno mesurau cyni cyllidol.

1.3 Mae gan bobl ag anabledd dysgu hawl i fyw'n annibynnol. Wedi'u hategu gan ymrwymiadau ym mholisïau Llywodraeth Cymru[5] ac awdurdodau lleol, bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff lety a chymorth eu darparu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Yn lle'r model sefydliadol blaenorol mae gwasanaethau bellach yn cael eu darparu gan ddefnyddio model sy'n helpu pobl i fyw yn y gymuned mewn tai cyffredin. Yn 2015-16, ariannodd awdurdodau lleol fwy na 12,000 o leoliadau i wasanaethau llety ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu. Dengys Arddangosyn 2 isod fod y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn – 10,006 – i wasanaethau llety yn y gymuned. Roedd y lleoliadau sy'n weddill i gartrefi gofal preswyl a mathau eraill o lety.

## Arddangosyn 2 – Lleoliadau anableddau dysgu ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2015-16 a'r newid canrannol yn y ddarpariaeth ers 2008-09

Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig lleoliadau mewn gwasanaethau cymunedol, ar gyfer mwy o bobl ag anableddau dysgu.

| Math o lety | 16-64 oed | Newid | 65+ oed | Newid | Cyfanswm (pob unigolyn 16+ oed) | Newid ers 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ei gartref ei hun | 1,399 | -12% | 276 | 42% | 1,675 | -5.9% |
| Yn byw gyda rhieni neu deulu | 5,456 | 2% | 156 | 73% | 5,612 | 3.2% |
| Cartref maeth | 84 | -33% | 8 | -20% | 92 | -32.3% |
| Tai llety / byw â chymorth | 2,217 | 27% | 410 | 63% | 2,627 | 31.8% |
| **Llety yn y gymuned** | **9,156** | **4.1%** | **850** | **31.4%** | **10,006** | **10.4%** |
| Llety gwasanaethau iechyd | 115 | 7% | 17 | 42% | 132 | 10% |
| Cartrefi gofal awdurdodau lleol | 40 | -57% | 20 | -47% | 60 | -54% |
| Cartrefi gofal preifat neu wirfoddol | 1,109 | 4% | 244 | -2% | 1,353 | 2.5% |
| **Llety preswyl** | **1,264** | **-0.7%** | **281** | **-5.7%** | **1,591** | **1.3%** |
| Mathau eraill o lety | 426 | 270% | 37 | 118% | 463 | 250.1% |
| **Pob math o lety** | **10,846** | **7%** | **1,168** | **35%** | **12,014** | **8.7%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

5 Strategaeth Anableddau Dysgu - Canllawiau Adran 7 ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymateb y Gwasanaeth, Llywodraeth Cymru, Awst 2004.

1.4 Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o Daffodil yn rhagweld y bydd nifer y bobl 18 oed a throsodd yng Nghymru sydd ag anabledd dysgu yn cynyddu o 58,300 yn 2015, i 63,114 yn 2035, sef cynnydd o 8.2%. O ran dosbarthiad y boblogaeth ag anableddau dysgu, mae Atodiadau 3 a 4 yn crynhoi amcanestyniadau Daffodil yn ôl ardal awdurdod lleol. I grynhoi, mae amcanestyniadau Daffodil yn awgrymu y bydd angen i fwy o bobl gael help a chymorth gan awdurdodau lleol i fyw'n annibynnol erbyn 2035 am y rhesymau canlynol:

a bydd nifer y bobl ag anableddau dysgu yn cynyddu mewn 20 o awdurdodau a bydd y nifer yn cynyddu'n sylweddol mewn pum ardal awdurdod lleol;

b bydd nifer y bobl dros 65 oed sydd ag anableddau dysgu yn cynyddu o 12,986 i 17,996, sef cynnydd o 38.5%[6] ac maent yn debygol o roi mwy o bwysau ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth; a

c bydd nifer y bobl 18 oed a throsodd yng Nghymru y canfuwyd bod ganddynt anabledd dysgu 'cymedrol neu ddifrifol' yn cynyddu mewn 12 o'r 22 o awdurdodau lleol. Yn benodol, bydd angen cymorth ar gyfran uwch o bobl ag anableddau dysgu difrifol neu gymedrol, yn enwedig pan fydd rhieni a theuluoedd yn llai abl i ddarparu gofal.

## Mae'r gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae buddsoddiad yr awdurdod wedi cadw at y galw. Fodd bynnag, mae'n anodd nodi pam mae amrywiaeth eang yng ngwariant awdurdodau

1.5 Mae awdurdodau lleol yn gwario symiau mawr o arian cyhoeddus ar wasanaethau anableddau dysgu. Ar lefel Cymru, mae gwariant gros ar gyfer pobl ag anableddau dysgu (oedolion o dan 65 oed) wedi cynyddu 16.5% o £336.3 miliwn yn 2008-09 i £398.5 miliwn yn 2015-16. Mewn termau real, gan ystyried chwyddiant, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 6.8% ar gyfer Cymru gyfan dros y cyfnod. Mae Atodiad 3 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r newid yng ngwariant awdurdodau lleol.

6 Mae'r cynnydd yn nifer y bobl dros 65 oed sydd ag anableddau dysgu cymedrol neu ddifrifol i'w briodoli'n bennaf i ddisgwyliad oes uwch, yn enwedig ymhlith pobl â syndrom Down, a'r nifer gynyddol o bobl ag anableddau cymhleth a lluosog sydd bellach yn goroesi i fyw'n hŷn.


1.6 Mae Llywodraeth Cymru yn casglu amrywiaeth o ddata ar wasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys y gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol, a nifer y lleoliadau a wneir bob blwyddyn i'r gwahanol fathau o lety. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn coladu nac yn cofnodi cost y gwahanol fathau o lety gofal cymdeithasol yn ôl awdurdod ac, felly, ni ellir cymharu gwariant ar gyfer y gwahanol fathau o lety er mwyn helpu i nodi a yw gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd ddarbodus.

1.7 Er mwyn deall sut mae awdurdodau yn rheoli eu trefniadau ariannu ar gyfer darparu gwasanaethau anableddau dysgu, rydym wedi dadansoddi gwariant fel a ganlyn:

a Yn gyntaf, plotiwyd y newid mewn gwariant a lleoliadau rhwng 2008-09 a 2015-16 er mwyn nodi a oes cysylltiad rhwng cost uchel a niferoedd uchel a/neu amlder lleoliadau. Mae Arddangosyn 3 isod yn mapio'r newid mewn termau real mewn gwariant yn erbyn nifer y lleoliadau yn ôl awdurdod lleol rhwng 2008-09 a 2015-16. Dengys ein dadansoddiad nad oes unrhyw batrwm clir rhwng gwariant a lleoliadau. Nid yw gwario mwy bob amser yn arwain at fwy o leoliadau. Yn yr un modd, nid yw gwario llai bob amser yn arwain at lai o leoliadau.

Arddangosyn 3 – Y newid yn nifer y lleoliadau mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion dan 65 oed (echel x) yn erbyn y newid mewn gwariant gros (termau real) rhwng 2008-09 a 2015-16 (echel y)

Dengys y siart y newid mewn gwariant a nifer y lleoliadau ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2008-09 a 2015-16. Mae pob cwadrant o'r siart yn cynrychioli patrwm gwahanol o newid dros amser (fel y'i labelir). Dengys yr Arddangosyn nad oes unrhyw gydberthynas amlwg rhwng gwariant a nifer y lleoliadau.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

b Yn ail, rydym wedi mapio gwariant cyfartalog cyffredinol[7] awdurdodau ar olion troed byrddau iechyd er mwyn nodi a oes marchnadoedd comisiynu rhanbarthol ar waith. Dengys Atodiad 4 fod y gost gyfartalog fesul lleoliad yn amrywio o tua £22,000 i ychydig o dan £71,000. Yn gyffredinol, down i'r casgliad, yn seiliedig ar gyfartaleddau, nad oes unrhyw 'farchnadoedd rhanbarthol' clir ac amlwg.

7 Gan na chesglir data sy'n nodi faint sy'n cael ei wario ar y gwahanol fathau o lety anableddau dysgu dim ond gan ddefnyddio'r gwariant cyfartalog cyffredinol fesul lleoliad ar gyfer pob math o lety gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu y gallwn gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Rydym yn cydnabod y gall fod gan gyfartaleddau rai gwendidau, yn enwedig lle mae data wedi'u camystumio gan amrywiadau eang mewn gwariant o fewn awdurdod. Serch hynny, drwy ddefnyddio gwariant cyfartalog fesul lleoliad, gallwn ystyried a oes materion sylfaenol a all ddylanwadu ar gost gwasanaethau.

c Yn drydydd, rydym wedi grwpio awdurdodau yn ôl math daearyddol ac economaidd-gymdeithasol, gan ddosbarthu awdurdodau i'r categorïau canlynol: dyffrynnoedd; trefol a gwledig cymysg; dinas; neu wledig yn bennaf. Mae Atodiad 5 yn crynhoi'r dadansoddiad hwn ac yn nodi bod yr amrediad cost, ar y cyfan, yn rhy eang i awgrymu bod ffactorau daearyddol neu economaidd-gymdeithasol yn cael dylanwad sylweddol ar gost.

ch Yn olaf, dadansoddwyd amrywiadau mewn gwariant a newidiadau i'r ddarpariaeth er mwyn nodi pa fodel gwasanaeth – gwasanaethau cymunedol neu breswyl – sy'n rhatach neu'n ddrutach, os oes yr un ohonynt yn rhatach neu'n ddrutach na'r llall. Mae Atodiad 6 yn cymharu'r gost gyfartalog fesul lleoliad a pha mor gyffredin yw gwahanol fathau o ddarpariaeth ar gyfer yr awdurdodau â'r gost gyfartalog isaf ac uchaf fesul lleoliad. Ar sail ein dadansoddiad, down i'r casgliad nad oes unrhyw gydberthynas glir rhwng cost gyfartalog lleoliad a'r math o lety gofal cymdeithasol.

1.8 Gan ddefnyddio'r dystiolaeth uchod amcangyfrifwn nad oes unrhyw batrwm na rhesymeg amlwg megis amodau'r farchnad, materion rhanbarthol neu fath o fodel gwasanaeth sy'n helpu i esbonio neu gyfiawnhau amrywiadau mewn gwariant. Felly, rydym o'r farn ei bod yn fwy tebygol mai ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gost lleoliadau anableddau dysgu, ac ystyrir y rhain yn fanwl yn Rhannau 2 a 3 o'r adroddiad hwn. Yn benodol:

a effeithiolrwydd a dull gweithredu tîm comisiynu pob awdurdod, eu sgiliau a'u galluoedd i negodi, herio a phennu costau priodol;

b nifer ac amrywiaeth y staff a gyflogir a'r ffordd y maent yn ymgysylltu â darparwyr gofal allanol ac yn eu rheoli;

c argaeledd darparwyr yn y farchnad a pha mor effeithiol yw timau comisiynu awdurdodau lleol wrth gynyddu gallu darparwyr;

ch y systemau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir i gomisiynu gwasanaethau, yn enwedig y cysylltiad rhwng dulliau corfforaethol o gaffael a chomisiynu gofal cymdeithasol;

d cadernid asesiadau o anghenion a gwaith cynllunio strategol sy'n ategu'r dewisiadau a wneir gan awdurdodau; ac

dd cryfder y gwaith craffu a goruchwylio a wneir mewn perthynas â'r system gomisiynu er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei wella.

1.9 Mae eraill hefyd yn adleisio ein casgliadau. Er enghraifft, mae Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol Grŵp Comisiynu Cydweithredol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Cymru (yr 'Uned') yn y GIG yng Nghymru wedi adolygu costau lleoliadau preswyl ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu ac wedi nodi amrywiaeth o gostau ar gyfer lleoliadau gofal tebyg. Nodir y dadansoddiad hwn yn Arddangosyn 4 isod ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod darparwyr yn codi symiau gwahanol ar awdurdodau lleol am yr un math o wasanaeth, fwy neu lai. Daeth yr Uned i'r casgliad fod y 'prices charged for existing residential placements on a care setting by care setting basis lack transparency, are inconsistent and have limited relationships to any service specifications.' Mae hyn yn awgrymu bod gwendidau cyfredol mewn trefniadau comisiynu yn galluogi darparwyr i godi cymaint â phosibl am wasanaethau yn hytrach na gweithredu yn unol â model cost penodol.

### Arddangosyn 4 – Cost pecynnau gofal wythnosol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Mae'r Arddangosyn yn crynhoi'r amrediad costau wythnosol ar gyfer tri model gwahanol o ddarpariaeth mewn cartrefi gofal ac yn tynnu sylw at y ffaith bod y taliadau a godir gan ddarparwyr am yr un math o wasanaeth, fwy neu lai, yn amrywio'n fawr.

| | Amrediad costau fesul lleoliad wythnosol | |
|---|---|---|
| **Math o leoliad** | **Isafswm cost** | **Uchafswm cost** |
| Cartref gofal, anableddau dysgu, heb staff parhaus | £1,216 | £1,628 |
| Cartref gofal, anableddau dysgu, gyda staff parhaus | £681 | £3,250 |
| Cartref gofal, anableddau dysgu, gyda staff nyrsio parhaus | £1,330 | £2,766 |

Ffynhonnell: Cyfarwyddwr yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol, cyflwyniad i Gynhadledd Flynyddol CIPFA 2017.

## Mae ein gwaith modelu yn awgrymu, ar lefel Cymru gyfan, fod y ddarpariaeth yn cadw i fyny â'r twf rhagamcanol ond bod traean o'r awdurdodau yn wynebu dewisiadau pwysig ynglŷn â sut y byddant yn ateb y galw am lety yn y dyfodol

1.10 Gall seilio prosesau darparu gwasanaethau yn y dyfodol ar safonau a dulliau gweithredu cyfredol weithiau arwain at oramcangyfrif neu danamcangyfrif y galw. Gall y tybiaethau sy'n sail i unrhyw ddadansoddiad ddylanwadu ar y broses o ragfynegi'r galw yn y dyfodol, ac nid yw'r galw rhagamcanol bob amser yn troi'n alw gwirioneddol. Fodd bynnag, drwy dybio y bydd gwasanaethau yn gweithredu heb fawr ddim newid i feini prawf cymhwysedd, os o gwbl, ac y byddant yn parhau, ar y cyfan, fel y'u darperir ar hyn o bryd, byddwn yn gallu ystyried i ba raddau y gall awdurdodau lleol ymateb i'r galw posibl am wasanaethau yn y dyfodol.


1.11 Gan dybio na fydd meini prawf cymhwysedd yn newid, yn Arddangosyn 5 rydym wedi modelu'r newid yn y galw am lety gofal cymdeithasol a ddarperir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ar lefel Cymru gyfan ac awdurdod lleol[8]. Rydym yn defnyddio graff gwasgariad i gynrychioli'r perfformiad presennol o ran darparu gwasanaethau llety gofal cymdeithasol, a'i gymharu â'r newid a ragwelir yn nifer y bobl y mae angen y gwasanaethau hynny arnynt erbyn 2035. Lle mae'r ddau farciwr yn cyd-daro, mae perfformiad yn y gorffennol yn cyd-fynd yn agos â'r galw rhagamcanol ac mae awdurdodau mewn sefyllfa dda i reoli'r cynnydd rhagamcanol yn y boblogaeth ar gyfer llety gofal cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, lle mae'r ddau farciwr yn wahanol i'w gilydd, mae angen i awdurdodau ddarparu mwy o adnoddau i ymdrin â'r cynnydd rhagamcanol yn y galw am lety neu raddol leihau'r cynnydd yn y galw yn y dyfodol.

8 Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar ddwy set ar wahân o ddata. Yn gyntaf, gwnaethom edrych ar y cynnydd canrannol cyfartalog yn nifer y gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu rhwng 2008-09 a 2015-16. Gan ddefnyddio'r data hyn, amcangyfrifwn y bydd y galw am lety yn cynyddu 8.7% dros y cyfnod o 20 mlynedd. Yn ail, mae'r cynnydd rhagamcanol yn y galw yn seiliedig ar y cynnydd disgwyliedig yn nifer y bobl ag anableddau dysgu, fel y'i pennir gan ddata Daffodil, yn rhagamcanu y bydd y galw am lety yn cynyddu 8.2%.

1.12 I grynhoi, mae ein dadansoddiad yn nodi ei bod yn bosibl y bydd angen i naw awdurdod lleol (rhifau 1 i 9) gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau llety gofal cymdeithasol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y galw erbyn 2035. Mae'r rhain yn awdurdodau lle mae gwasanaethau llety naill ai wedi lleihau rhwng 2008-09 a 2015-16 neu lle mae'r newid i'r ddarpariaeth llety yn ystod y cyfnod hwn yn is na lefel ragamcanol y galw y bydd angen iddynt ei fodloni yn y dyfodol. Mae perfformiad saith awdurdod (rhifau 10 i 16) yn y gorffennol yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r cynnydd disgwyliedig mewn llety. Mae hyn yn awgrymu bod y dulliau presennol o reoli'r galw yn addas iawn, neu na fyddent ond yn gofyn am newid bach iawn yn y ddarpariaeth llety er mwyn darparu ar gyfer y newid rhagamcanol yn nifer y bobl ag anableddau dysgu. Yn olaf, mae chwe awdurdod (rhifau 17 i 22) wedi cynyddu nifer y lleoliadau mewn llety anableddau dysgu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond efallai y bydd eu poblogaeth ragamcanol o bobl ag anableddau dysgu yn yr 20 mlynedd nesaf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ailystyried gwasanaethau a lleihau'r ddarpariaeth yn raddol.

Arddangosyn 5 – Modelu'r perfformiad presennol (cronfa ddata 2015-16) o ran darparu gwasanaethau llety gofal cymdeithasol i oedolion ag anableddau dysgu yn erbyn y newid disgwyliedig yn nifer y bobl y gallai fod angen gwasanaethau llety arnynt erbyn 2035 (a gafwyd o Daffodil)

Mae angen i draean o'r awdurdodau gynyddu eu buddsoddiad mewn gwasanaethau anableddau dysgu er mwyn darparu ar gyfer y twf rhagamcanol yn y boblogaeth erbyn 2035.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata cyhoeddedig Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar StatsCymru a Daffodil.

## WRTH EDRYCH I'R DYFODOL, RHAGWELWN Y BYDD Y CANLYNOL YN DIGWYDD ERBYN 2035:

Bydd nifer y bobl ag anableddau dysgu y bydd angen i awdurdodau lleol eu helpu yn cynyddu






Bydd angen i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn

£365 MILIWN

ychwanegol

Dengys ein hymchwil fod gan awdurdodau lleol ffyrdd gwahanol o gomisiynu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a'u bod yn wynebu heriau amrywiol yn ystod y 20 mlynedd nesaf

9 Mae angen i naw awdurdod drefnu bod mwy o lety ar gael er mwyn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu

7 Mae saith ohonynt mewn sefyllfa dda lle nad oes angen gwneud llawer o newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol

6 Mae disgwyl i chwech awdurdod gael gormod o lety ac mae angen iddynt ailystyried a gohirio gwasanaethau


## Nid yw lefelau presennol o wariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu yn ddigonol i gadw i fyny â chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau

1.13 Drwy gymharu patrymau cyfredol o wariant â chynnydd disgwyliedig yn y galw, gallwn nodi i ba raddau y gall awdurdodau lleol ateb galw ariannol costau llety yn y dyfodol. Mae Arddangosyn 6 dros y dudalen yn cymharu lefelau presennol o wariant ar wasanaethau llety â chostau posibl yn y dyfodol gan ddefnyddio dau fesur, sef: y lefel ddisgwyliedig o wariant yn seiliedig ar y cynnydd blynyddol cyfartalog yn y gyllideb rhwng 2008-09 a 2015-16; a'r cynnydd rhagamcanol mewn gwariant sydd ei angen er mwyn cadw i fyny â chwyddiant a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

1.14 Mae ein gwaith modelu yn Arddangosyn 6 yn nodi y bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu tua £365 miliwn erbyn 2035 (mae Atodiad 9 yn crynhoi ein cyfrifiadau sy'n dangos sut rydym wedi cael y ffigur hwn). Er mwyn cadw at y galw cynyddol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol, bydd angen i awdurdodau wella eu systemau a phrosesau comisiynu i wrthbwyso ein cynnydd amcangyfrifedig mewn costau, ond hefyd yn buddsoddi symiau mwy o arian i ateb y galw cynyddol. Bydd hyn yn heriol yn yr hinsawdd ariannol gyfredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Isod, yn Rhannau 2 a 3 o'n hadroddiad, rydym yn rhoi trosolwg o'r trefniadau comisiynu presennol, gan wneud sylwadau ar effeithiolrwydd arferion presennol a gallu awdurdodau i gomisiynu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

## Arddangosyn 6 – Modelu'r cynnydd rhagamcanol yng ngwariant gwasanaethau llety gofal cymdeithasol i oedolion ag anableddau dysgu erbyn 2035


Ar sail ein gwaith modelu down i'r casgliad bod cymharu patrymau gwario awdurdodau lleol â chwyddiant rhagamcanol a'r galw cynyddol am wasanaethau yn dangos y bydd angen cynyddu buddsoddiad presennol awdurdodau lleol ar wasanaethau llety yn sylweddol er mwyn cadw i fyny â chwyddiant ac ateb y galw rhagamcanol yn 2035.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

# Rhan 2

# Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar gyfer comisiynu gwasanaethau llety i bobl ag anableddau dysgu



2.1 Mae gan y comisiynwyr gorau yr hyder i herio'r sefyllfa sydd ohoni, derbyn newid radical, cydweithio'n effeithiol â rhanddeiliaid allanol, meithrin dealltwriaeth ddofn o anghenion a thargedu adnoddau yn effeithiol er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

2.2 Ym mis Ionawr 2011, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol[9], er mwyn helpu i lunio cynlluniau strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu. Defnyddir y canllawiau hyn gan awdurdodau lleol, ar y cyd â chodau ymarfer a ddatblygwyd yn sgil pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i ddatblygu opsiynau comisiynu sydd wedi'u hintegreiddio â strategaethau gofal cymdeithasol ehangach. Nod y canllawiau yw sicrhau bod partneriaid yn darparu dull cydgysylltiedig a chosteffeithiol o gomisiynu gwasanaethau llety. Dylai strategaethau comisiynu awdurdodau lleol nodi sut y byddant yn gwneud hyn ac, felly, rydym wedi ystyried pa mor dda y maent wedi datblygu eu cynlluniau ynghyd â barn y bobl sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaethau.

2.3 Yn y Rhan hon o'r adroddiad rydym yn ystyried pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth drefnu eu hunain i ateb y galw presennol am lety i oedolion ag anableddau dysgu.

## Nid yw pob awdurdod lleol wedi datblygu opsiynau comisiynu strategol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynwyd

2.4 Mae awdurdodau yn ceisio datblygu eu dull comisiynu ac mae tystiolaeth glir o welliannau mewn prosesau cynllunio strategol. Mae 19 o'r 22 o awdurdodau lleol wedi datblygu strategaeth gomisiynu benodol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu ac mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yn credu bod gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i'w strategaeth gomisiynu. Mae Arddangosyn 7 dros y dudalen yn nodi'r manteision y mae awdurdodau yn cydnabod eu bod wedi'u sicrhau o ganlyniad i strategaethau comisiynu. Er gwaethaf casgliadau cadarnhaol, nododd rhai awdurdodau lleol rai heriau lleol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig â chomisiynu gwasanaethau, gan gyfeirio'n benodol at y canlynol:

a anawsterau o ran recriwtio staff, yn enwedig ledled Gogledd Cymru;

b prinder llety i ddiwallu anghenion mwy cymhleth;

c ni all darparwyr presennol ateb y galw cynyddol am atebion mwy cymhleth;


9 http://gov.wales/docs/dhss/publications/110301LearningDisCommStraten.pdf

ch anawsterau o ran cydbwyso'r angen i ddod o hyd i arbedion a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy costeffeithiol â'r galw cynyddol am becynnau gofal mwy cymhleth; ac

d problemau wrth weithredu newid diwylliannol i ffwrdd oddi wrth y ddarpariaeth gofal dydd bresennol y mae llawer o bobl hŷn ag anableddau dysgu wedi dod i arfer â hi ac y maent yn fodlon arni, i wasanaethau cymunedol.

## Arddangosyn 7 – Barn rheolwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau anableddau dysgu ar effaith eu strategaeth gomisiynu


Yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth, mae mwyafrif yr awdurdodau lleol o'r farn bod eu Strategaethau Comisiynu wedi gwella ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol y maent yn eu darparu i bobl ag anableddau dysgu a'u bod yn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu yn well.




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o reolwyr gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau anableddau dysgu gofal cymdeithasol, Mai 2017.

2.5 Mae’r cyfuniad o bwysau ar gyllidebau a deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn annog awdurdodau i foderneiddio dulliau comisiynu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae’r Ddeddf yn rhoi mwy o ryddid i’r rhai sy’n cael gwasanaethau benderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt, sy’n arbennig o berthnasol i bobl ag anabledd dysgu.

2.6 Mae addasrwydd ac argaeledd llety priodol yn hollbwysig wrth ddiwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a’u gofalwyr nawr ac yn y dyfodol. Dengys canfyddiadau ein harolwg o reolwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod polisi, ar y cyfan, yn parhau i gefnogi gwasanaethau cymunedol sy’n helpu pobl i fyw’n annibynnol o gymharu â gwasanaethau mwy preswyl eu natur. Er enghraifft, mae 21 o’r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu gwasanaethau tai â chymorth yn y dyfodol, ac mae 16 o awdurdodau o blaid cynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain neu gyda’u rhieni neu aelodau o’u teulu.



2.7 Fodd bynnag, er bod y Ddeddf yn hyrwyddo annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt, mae'r ymatebion wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella strategaethau a dogfennaeth ysgrifenedig. At hynny, er bod awdurdodau lleol am symud i ffwrdd oddi wrth wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ofal dydd a gwasanaethau preswyl tuag at wasanaethau llety cymunedol mwy penodol a hyblyg sy'n diwallu anghenion defnyddwyr unigol orau, nid yw'r dyheadau hyn bob amser yn cael eu gwireddu.

2.8 Er enghraifft, dywedodd nifer o sefydliadau cenedlaethol y gwnaethom siarad â hwy sy'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr, wrthym fod awdurdodau wedi bod yn trafod y posibilrwydd o newid modelau gwasanaeth ers amser maith, ond nad ydynt wedi gweld fawr ddim tystiolaeth o newid cadarnhaol ar lawr gwlad nac yn y gwasanaethau a gomisiynir gan awdurdodau. Dywedodd cyfweleion wrthym hefyd nad yw awdurdodau bob amser yn ystyried y cyfraniad y gall gwasanaethau eraill, megis hamdden ac addysg, ei wneud at y gwaith o gyflawni gwell canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu. Nododd un uwch rheolwr mewn sefydliad cymorth anableddau dysgu y gwnaethom siarad ag ef ei bod wedi bod yn fwriad gwella modelau darparu gwasanaethau ers iddo ddechrau yn y sector 30 o flynyddoedd yn ôl. Nododd eraill fod cyfleoedd megis cyflogaeth â chymorth yn rhoi llawer mwy o foddhad na gweithgareddau sy'n 'llenwi amser' megis gofal dydd, nad ydynt yn aml yn sicrhau canlyniadau effeithiol i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r angen i roi sgiliau ehangach a mwy arbenigol i staff i'w galluogi i ddod o hyd i gyfleoedd swyddi i bobl ag anableddau dysgu a'u datblygu yn cael ei gydnabod mewn nifer gynyddol o gynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol.

2.9 Er gwaethaf y diffygion hyn, mae awdurdodau yn gwella eu ffocws strategol ar waith comisiynu. Er enghraifft, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Strategaeth Gomisiynu a Datganiad o Fwriad ar gyfer Anableddau Dysgu, a ategir gan Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli. Nod y ddwy strategaeth hyn yw darparu fframwaith strategol unedig ar gyfer comisiynu, caffael a rheoli contractau yn yr awdurdod lleol. Datblygwyd y Strategaeth Gomisiynu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Cydnabu aelodau o staff y gwnaethom siarad â hwy fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 9Cymru) 2014 wedi llywio'r newid meddwl am y ffordd y darperir gwasanaethau.

2.10 Yn yr un modd, mae gan Ddinas a Sir Caerdydd nifer o gynlluniau gweithredol sy'n helpu i gyflawni ei Strategaeth Gomisiynu Anableddau Dysgu[10]. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Comisiynu Strategol cyffredinol sy'n nodi gwerthoedd, egwyddorion a dibenion yr holl waith comisiynu a wneir gan y Cyngor, a dogfennau mwy penodol sy'n ymdrin â gwasanaethau Pobl Hŷn, strategaeth Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a strategaeth ar y cyd ar gyfer Cyfleoedd Dydd. O ganlyniad, mae'r wybodaeth gyfredol yn golygu bod yr awdurdod lleol mewn gwell sefyllfa i gomisiynu gwasanaethau.

## Nid yw strategaethau comisiynu bob amser yn arwain at opsiynau costeffeithiol ar gyfer gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu

2.11 Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi bod anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan bobl ag anabledd dysgu yn cael eu hachosi'n rhannol gan ofal cymdeithasol o ansawdd gwael a bod iechyd pobl ag anableddau dysgu yn waeth a'u bod yn marw'n ifancach na phobl eraill, ar gyfartaledd[11]. Felly, dylai awdurdodau lleol wneud popeth o fewn eu gallu er mwyn sicrhau'r gwasanaeth llety mwyaf effeithiol a phriodol i ddiogelu llesiant unigolion ac mae trefniadau ffurfiol awdurdod lleol â gofalwyr a darparwyr gwasanaethau anableddau dysgu yn rhan bwysig o ddull gweithredu strategol effeithiol sy'n sicrhau gwerth da am arian.

2.12 O'r ddogfennaeth a archwiliwyd gennym, ynghyd â'n cyfweliadau â staff comisiynu a sefydliadau cenedlaethol, nodwyd anghysondebau o ran y ffordd y mae awdurdodau yn cydbwyso cost ac ansawdd gwasanaethau llety. Nodwyd gennym hefyd nad oedd gan gomisiynwyr, timau caffael corfforaethol a darparwyr ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

2.13 Dengys ein harchwiliad o waith ymchwil a dogfennaeth genedlaethol nad yw trefniadau comisiynu awdurdodau yn rhoi digon o sicrwydd bod ganddynt y systemau cywir ar waith i gyflawni eu bwriadau o ran comisiynu strategol. Mae gormod o strategaethau comisiynu yn rhoi darlun anghyflawn o anghenion presennol a thymor hwy defnyddwyr a gofalwyr, dadansoddiad annigonol o'r farchnad, mewnbwn cyfyngedig gan ddarparwyr a dadansoddiad gwan o lefelau cyfredol o wariant a dewisiadau polisi. O ganlyniad, mae llinellau sylfaen yn dal i fod yn anghyflawn. Felly, efallai nad yw cynlluniau gweithredu wedi'u hanelu at y pethau cywir ac yn aml maent yn canolbwyntio ar restr o fwriadau yn hytrach na chamau gweithredu strategol sy'n llywio ac yn gwella gweithgarwch comisiynu.

10 cardiff.moderngov.co.uk/learningDisabilityCommissioningStrategy
11 Gweler www.who.int/mediacentre/factsheets/fs352/en/

2.14 Mae egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[12] (y 'pum ffordd o weithio') yn cael eu hintegreiddio fwyfwy mewn strategaethau comisiynu a chaffael, ond mae cynnydd o ran cynnwys darparwyr yn dal i ddatblygu. Mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wedi llunio strategaeth gaffael sydd â'r nod penodol o gynyddu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hyd yr eithaf. Mae sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn gallu manteisio ar gyfleoedd tendro yn cael ei adolygu gan staff comisiynu ar hyn o bryd. Mae Strategaeth Comisiynu Anableddau Dysgu Bae'r Gorllewin yn cynnig dull strategol mwy integredig o leihau anghysondebau iechyd. Mae'r strategaeth hon yn diffinio'r problemau y mae'n ceisio eu datrys, sut y bydd yn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar hyn o bryd ac yn dadlau dros ddefnyddio cyllidebau cyfun.

2.15 Yn fwyfwy, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen iddynt wella effeithlonrwydd a sefydlogrwydd cost gweithgarwch comisiynu. Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol. Mae Cyd-ddatganiad o Fwriad Strategol - Anableddau Dysgu 2016 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys ffocws cryf ar lywio'r farchnad. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu rhwng gwasanaethau cyffredinol, gwasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ymyrraeth ddwys fel bod comisiynwyr yn glir ynglŷn â pha wasanaethau sydd ar gael er mwyn darparu ar gyfer cymharu pecynnau gofal. O ganlyniad, gall darparwyr lenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn gyflymach.

2.16 Mae awdurdodau lleol hefyd yn datblygu eu strategaethau comisiynu er mwyn chwilio am ffyrdd o gydweithio a sicrhau mwy o werth am arian. Mae adroddiad yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, 'Transforming Learning Disability Services in Wales'[13], a gyhoeddwyd yn 2014, yn nodi bod '... potential to develop the functions of commissioning to deliver better outcomes for people with a learning disability and reduce avoidable costs.' Mae argymhellion yr adroddiad yn cynnwys adolygiadau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a dull integredig o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau anableddau dysgu yng Nghymru i'w fabwysiadu gan y GIG a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, nodwyd gennym yr ystyrir mai'r angen i leihau costau yw'r prif ddylanwad o hyd. Mae hyn yn creu rhwystrau i arloesi a gwaith comisiynu effeithiol.

12 Gweler http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf
13 Gweler Transforming Learning Disability Services in Wales.

## Mae trefniadau cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol yn datblygu'n raddol, ond mae gweithgarwch ymgysylltu â Byrddau Iechyd yn amrywio

2.17 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu strategaethau comisiynu ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi y dylai awdurdodau lleol weithio gyda'u byrddau iechyd lleol wrth lunio eu strategaethau comisiynu a datblygu a darparu gwasanaethau anableddau dysgu, gan gynnwys llety. O'n harolwg o reolwyr gwasanaethau awdurdodau lleol nodwyd gennym fod tua dau o bob tri ymatebydd yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd â'u Bwrdd Iechyd Lleol a'u bod wedi nodi bod y trefniadau hyn yn 'effeithiol' neu'n 'effeithiol iawn'.

### Arddangosyn 8 – Staff cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol cyfwerth ag amser cyflawn ar gyfer pob awdurdod lleol a gwasanaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru yn 2015-16

Mae'r arddangosyn yn crynhoi'r holl staff amrywiol a gyflogir gan awdurdodau lleol i ymgymryd â'r holl weithgarwch cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol. Y cyfartaledd ledled Cymru yw 10.9 o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) i ymgymryd â gweithgarwch cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol ac mae'n amrywio o ddim staff arbenigol i 33.2 o staff CALl.

| Ystod | Rheolwr Comisiynu | Staff gweithredol | Swyddog cymorth | Aelodau eraill o staff |
|---|---|---|---|---|
| Lleiafswm | 0 mewn chwe ALl | 0 mewn pum ALl | 0 mewn pum ALl | 0 mewn 10 ALl |
| Uchafswm | Pedwar mewn un ALl | 13 mewn un ALl | 15 mewn un ALl | 16 mewn un ALl |
| **Cyfanswm Cymru** | **33** | **89** | **74** | **44** |

Ffynhonnell: http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-social-services-staff-numbers/?lang=cy;

## GWARIANT AWDURDODAU LLEOL

gwariodd awdurdodau lleol

£336.3 MILIWN

ar wasanaethau anableddau dysgu i oedolion

2008-09



2015-16

roedd hyn wedi codi i

£398.5 MILIWN

cynnydd o 6.8% mewn termau real gan ystyried chwyddiant

Mae costau pecynnau gofal wythnosol i bobl ag anableddau dysgu yn amrywio.

Er enghraifft, mae isafswm costau cartrefi gofal sydd â gwasanaethau nyrsio ar y safle yn amrywio o **£680.88** i **£3,250** yr wythnos.

2.18 Fodd bynnag, tynnodd hyd yn oed y rhai a gyflwynodd sylwadau cadarnhaol ynghylch cydweithio â chydweithwyr yn y sector iechyd sylw at rai heriau. Er enghraifft, y ffaith bod trefniadau cydweithio yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol sy'n ymwneud â phecynnau gofal unigol yn hytrach nag ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau llety cynaliadwy tymor hwy; a gweithgarwch ymgysylltu gwael rhwng partneriaid sy'n arwain at berchenogaeth wael o benderfyniadau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chefnogaeth wael iddynt.

2.19 At hynny, mae llawer o reolwyr comisiynu y gwnaethom siarad â hwy yn ystyried bod rhanbartholi'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau anableddau dysgu yn un ffordd o sicrhau manteision ariannol a gwella ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd yn y maes hwn hyd yma ac nid yw rhai uwch reolwyr mewn awdurdodau wedi'u darbwyllo ynglŷn â rhanbartholi o hyd oherwydd y pwysau ychwanegol ar eu hamser, pryder ynghylch cyfrifoldebau a risg, amheuon parhaus ynghylch y cymorth i gyflenwyr llai o faint ac amharodrwydd i gyfuno cyllidebau.

2.20 Mae gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda gysylltiadau cryf â'r tri awdurdod lleol yn ei ardal (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion) ac mae wedi datblygu dogfen bwriad strategol a datganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu. Fel enghraifft o'r gydberthynas hon sy'n gwella, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth, gan weithio'n rhanbarthol gyda Chydweithredfa Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru, a ategir gan adolygiad annibynnol o weithgarwch cynllunio a mapio gwasanaethau[14]. Dechreuodd yr adolygiad yn 2014 ac mae wedi datblygu cryn dipyn ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym, gan ganolbwyntio ar asesu galluoedd partneriaid ac mae'n cynnwys nifer o opsiynau o ran gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

14 Partneriaeth Anableddau Dysgu Cydweithredfa Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru/2014

2.21 Yn yr un modd, yng Ngogledd Cymru, mae Betsi Cadwaladr yn gobeithio datblygu strategaeth anableddau dysgu gyda phob un o'r chwe awdurdod lleol yn ei ôl troed, a fydd yn bodoli ochr yn ochr â strategaeth iechyd meddwl ranbarthol. Hefyd, mae pob un o'r tri awdurdod lleol yng nghonsortiwm Bae'r Gorllewin – sef Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe – yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac mae strategaethau awdurdodau lleol a strategaethau rhanbarthol wedi cael budd o fewnbwn byrddau iechyd.

## Mae adnoddau i ategu'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn amrywio'n fawr

2.22 Mae nifer y staff a gyflogir gan awdurdodau lleol i ymgymryd â'r holl weithgarwch cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol yn amrywio'n fawr. Er bod nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi cynyddu o 230.35 yn 2014-15 i 239.56 yn 2015-16, mae nifer y rheolwyr wedi lleihau. Mae Arddangosyn 8 yn crynhoi'r holl staff amrywiol mewn awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol (nid oes unrhyw wybodaeth gyhoeddedig sy'n ymwneud yn benodol ag anableddau dysgu).

2.23 Nid oes a wnelo nifer y staff comisiynu arbenigol a gyflogir gan awdurdodau lleol fawr ddim â lefel gwariant awdurdod, nifer y bobl ag anableddau dysgu a gynorthwyir na'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir. Er enghraifft, mae nifer gyfartalog y bobl ag anableddau dysgu fesul aelod o staff cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol yn amrywio o 14 yn Sir Benfro i 600 yng Nghonwy. Y cyfartaledd ledled Cymru yw 56.6 o bobl ag anableddau dysgu fesul aelod cyfwerth ag amser llawn (CALl) o staff cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol. Yn yr un modd, mae gwariant fesul cleient anableddau dysgu fesul aelod o staff cynllunio a chomisiynu gofal cymdeithasol yn amrywio o £0.585 miliwn i £17.5 miliwn. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru yw £1.663 miliwn.

2.24 Mae rhyw fath o gysylltiad rhwng nifer y rheolwyr comisiynu a gyflogir gan awdurdod lleol a'u barn ar eu gallu i gomisiynu. Drwy gymharu canlyniadau ein harolwg o reolwyr anableddau dysgu awdurdodau lleol â'r data uchod a gyhoeddwyd gan StatsCymru ar niferoedd staff, gwelir bod yr awdurdodau hynny sydd â mwy na dau reolwr comisiynu o'r farn eu bod mewn sefyllfa well i gomisiynu gwasanaethau a bod y rhai nad oes ganddynt reolwr cynllunio na chomisiynu o'r farn nad ydynt mewn sefyllfa gystal i gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Nododd adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu[15], a gyhoeddwyd yn 2016, fod 'ansawdd gofal a chymorth i lawer o bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru yn ddibynnol i raddau helaeth ar ba mor effeithiol yw'r staff gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd rheng flaen sy'n rhoi cymorth iddynt.'

## Nid yw gweithgarwch ymgysylltu awdurdodau lleol bob amser yn ymateb i anghenion pobl ag anableddau dysgu na'u gofalwyr

2.25 Gall gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, a darparwyr gwasanaethau, fod o gymorth mawr i ddatblygu a chynnal gwasanaethau llety priodol o ansawdd uchel. Os caiff ei wneud yn dda, gall lywio prosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol drwy ddarparu gwybodaeth fanwl gan bobl ag anableddau dysgu am eu gofynion a'u dyheadau, a gan ddarparwyr gwasanaethau am eu hadnoddau, eu harbenigedd a'u mewnbwn ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau tai newydd. Mae ein cyfweliadau â chomisiynwyr, darparwyr a chynrychiolwyr cenedlaethol yn awgrymu, lle mae gwell gwerth am arian yn cael ei sicrhau, fod hynny i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod defnyddwyr yn chwarae mwy o ran mewn prosesau comisiynu.

2.26 Nododd ein harolwg fod awdurdodau lleol yn defnyddio nifer o dechnegau i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ag anableddau dysgu a darparwyr gwasanaethau, yn bennaf drwy weithdai, grwpiau ffocws a chyfarfodydd eraill. Nododd ein gwaith maes hefyd rai enghreifftiau da o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu sy'n cael gwasanaethau awdurdodau yn eu proses gaffael, gan gynnwys fel aelodau o baneli cyfweld wrth ddewis darparwyr.

15 http://careinspectorate.wales/our-reports/national-thematic-report/2016/national-inspection-care-and-support-for-people-with-learning-disabilities/?skip=1&lang=cy

2.27 Fodd bynnag, dim ond 12 o awdurdodau lleol sy'n ymgysylltu'n ffurfiol â grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau er mwyn helpu i lywio a gwella prosesau cynllunio a llywio eu prosesau gwneud penderfyniadau. Ceir cyfleoedd i ehangu gweithgarwch ymgysylltu er mwyn cynnwys ffyrdd llai ffurfiol a mwy uniongyrchol eraill o ymgysylltu, megis cyfryngau cymdeithasol.

2.28 Yn bwysig ddigon, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ymateb i'w hanghenion yn bwysig. Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau fod gweithgarwch ymgysylltu wedi'u galluogi i nodi opsiynau i wella'r ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu. Er enghraifft, drwy eu gwaith ymgysylltu, mae Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo i nodi anghenion a disgwyliadau grwpiau oedran gwahanol ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ailgynllunio gwasanaethau.

2.29 Mae darparwyr y gwnaethom siarad â hwy o'r farn bod awdurdodau lleol yn dal i roi pwyslais ar waith caffael yn hytrach na gwaith comisiynu ehangach. Mae gan rai awdurdodau lleol ffocws clir ar ddatblygu'r farchnad darparwyr, gyda'r nod o ychwanegu gwerth cymdeithasol[16] o'u buddsoddiad a gwella llesiant drwy waith comisiynu. Er bod pwysau cyllidebol wedi dylanwadu ar benderfyniadau hefyd, mae rhan o'r newid hwn hefyd wedi'i llywio gan newid yn nisgwyliadau rhai pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Felly, mae awdurdodau lleol yn cydnabod fwyfwy fod angen ehangu a gwella'r dewis o gyflenwyr ac ansawdd gwasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr. Fodd bynnag, dim ond hanner yr awdurdodau sy'n darparu hyfforddiant a gwasanaeth mentora i ddarparwyr er mwyn eu helpu a'u galluogi i ddeall disgwyliadau a gofynion yr awdurdod pan fyddant yn gwneud cais am gontractau. Er bod dogfennaeth dendro yn rhoi pwysoliad uwch i ansawdd gwasanaethau, yn aml nid oes dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae 'ansawdd' yn ei olygu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

16 Mae gwerth cymdeithasol yn ffordd o feddwl am y modd y caiff adnoddau prin eu dyrannu a'u defnyddio. Mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol ac ystyried beth yw'r budd a sicrheir i'r gymuned gyfan pan fydd corff cyhoeddus yn dewis dyfarnu contract. Mae gwerth cymdeithasol yn gofyn y cwestiwn: 'Os caiff £1 ei gwario ar ddarparu gwasanaethau, a ellir defnyddio'r un £1 honno i ddod â budd ehangach i'r gymuned?'

2.30 Mae deialog gadarnhaol â darparwyr gwasanaethau a'r trydydd sector yn elfen allweddol o'r Canllaw Arfer ar Arwain Comisiynu Integredig a Chydweithredol a luniwyd gan Fwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru[17] ym mis Awst 2017. O'n hadolygiad nodwyd gennym fod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Er enghraifft, gellid gwella gweithgarwch comisiynu drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin a chyfunol o adnoddau ac anghenion hirdymor gan gydweithio â darparwyr.

2.31 Fodd bynnag, dengys canfyddiadau ein harolwg fod cyfleoedd i wella arferion gwaith cyfredol. Er enghraifft, er bod 17 o awdurdodau yn cadw prosesau tendro mor fyr â phosibl ac er bod 17 yn nodi'n glir sut y caiff tendrau eu hadolygu, dim ond 11 sy'n defnyddio ffurflenni a gwybodaeth arfer da safonol sydd ar gael yn genedlaethol i brif ffrydio eu gweithgarwch. Mae rhai darparwyr o'r farn bod nifer y dogfennau sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol yn or-fiwrocrataidd. O ganlyniad, yn aml gall yr ystod o ddarparwyr sy'n ymateb i dendrau fod yn gyfyngedig. Nodwyd y gallai awdurdodau lleol wneud y broses dendro yn decach ac yn haws i ddarpar gyflenwyr newydd.

2.32 Felly, gallai awdurdodau lleol wneud mwy i ailddiffinio eu cydberthnasau â darparwyr er mwyn comisiynu gwasanaethau yn hytrach na'u caffael. Gall prosesau caffael awdurdodau lleol gael canlyniadau anfwriadol gyda ffafriaeth anfwriadol yn cael ei rhoi i'r sefydliadau hynny a all ysgrifennu cynigion o ansawdd uchel. Er y gall fod yn well gan reolwyr comisiynu ffafrio cwmnïau lleol, gwnaethant ddweud wrthym fod amodau caffael cenedlaethol cyfredol, yn ogystal â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried cwmnïau cenedlaethol heb ystyried y potensial i wella llesiant economaidd yr ardal leol a chreu swyddi.

2.33 Er bod rhai awdurdodau lleol o'r farn bod ganddynt ddigon o gyflenwyr priodol, mae eraill yn credu bod angen gwneud mwy i annog cwmnïau lleol. Er enghraifft, nododd rheolwr gwasanaethau mewn un awdurdod mai'r argraff yw bod '...lots of new providers are looking to work... It's an issue around capacity for smaller, local companies to apply.' Yn yr un modd, nododd rheolwr gwasanaethau arall fod '[the] number of providers has been relatively static...We need to be innovative in how we commission with more of a dialogue in terms of third sector provision now.' Fodd bynnag, cydnabu un y gall gwaith comisiynu yn aml gael ei danseilio gan 'Clash between social care commissioners, corporate procurement and legal officers'.

17 Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi'i sefydlu gyda'r nod cyffredinol o wella ansawdd gwaith comisiynu yng Nghymru a datblygu arfer effeithiol mewn perthynas â gwaith comisiynu integredig rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: Awdurdodau Lleol, y GIG, Fforwm Cenedlaethol y Darparwyr, y Trydydd Sector (CGGC), Swyddogion Caffael Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, AGGCC, CLlLC, Asiantaethau Gwella a Llywodraeth Cymru.

2.34 Mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli'r farchnad darparwyr yn datblygu'n araf i ffwrdd oddi wrth y model 'cleient contractwr' traddodiadol tuag at ddull gweithredu mwy cydweithredol. Mae Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru[18] o'r farn y gellid annog mwy o effeithlonrwydd ac arloesi pe bai awdurdodau yn cydweithio'n fwy effeithiol â darparwyr. Anaml y defnyddir trefniadau partneru[19], ac nid yw cymhellion i wella perfformiad yn amlwg yn nogfennaeth y contractau a archwiliwyd gennym. Ychydig o awdurdodau lleol sy'n defnyddio fframweithiau darparwyr a ffefrir. Mae rhai dogfennau tendro yn gofyn i ddarparwyr roi enghreifftiau o'r ffordd y byddant yn arloesi ac yn gwneud pethau'n wahanol, ond ceir llawer o ddogfennau nad ydynt yn gwneud hynny. Mae hyd contractau yn amrywio a gall tendro am gontractau byrrach fod yn rhy gostus i ddarparwyr llai o faint. Mae contractau treiglol a threfniadau blynyddol yn gyffredin. Mewn rhai ardaloedd, mae'r dewis o ddarparwyr yn gyfyngedig sy'n golygu mai ychydig o gystadleuaeth sydd am gontractau. O ganlyniad, mae rhai awdurdodau lleol yn colli cyfleoedd i atgyfnerthu a gwella'r ddarpariaeth er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

2.35 Mae dealltwriaeth awdurdodau lleol o alluoedd ac adnoddau'r farchnad darparwyr yn amrywio. Mae dealltwriaeth dda o ansawdd ac adnoddau yn bwysig er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynllunio darpariaeth gofal cymdeithasol a gwella ansawdd a lleihau cost y ddarpariaeth honno. Yn draddodiadol, mae awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cyflenwad digonol o wahanol fathau o wasanaethau anableddau dysgu. Fodd bynnag, gan fod pobl am gael mwy o reolaeth dros eu cyllidebau gofal eu hunain, mwy o ddewis a gwell mynediad i wasanaethau, mae angen i awdurdodau newid eu ffocws tuag at lywio'r farchnad a hwyluso'r farchnad. Soniodd darparwyr gwasanaethau wrthym am gostau datblygu gwasanaethau newydd a allai fod yn uchel a'r angen i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Mae gweithgarwch llywio'r farchnad mewn perthynas â gwasanaethau anableddau dysgu yn datblygu'n araf ond mae bylchau yn y ddealltwriaeth o allu ac adnoddau'r farchnad leol. Mae adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, The Care Home Market in Wales: Mapping the Sector[20], a gyhoeddwyd yn 2015, yn nodi bylchau yn y wybodaeth am wasanaethau, perchenogaeth, sefydlogrwydd ariannol, staffio ac ansawdd gofal. Gall prosesau rheoli gwybodaeth gwael rwystro'r gwaith o lunio a chynllunio darpariaeth gofal cymdeithasol a'i monitro'n barhaus.

18 Gweler Comisiynu Gwasanaethau ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu.pdf2017

19 Mae Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn diffinio partneru fel sefydlu cydberthynas hirdymor sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth a chydweithio, a rhannu risgiau a buddiannau. Bydd trefniant partneru rhwng cyflenwyr a chwsmeriaid yn canolbwyntio ar yr hyn y mae pob parti yn ei wneud orau, drwy integreiddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a sefydlu rolau penodol i bob cyfranogwr. Gweler ei adroddiad Finance Business Partnering: A Guide, a gyhoeddwyd yn 2014.

20 https://sites.cardiff.ac.uk/ppiw/files/2015/11/The-Care-Home-Market-in-Wales-mapping-the-sector.pdf

2.36 Fodd bynnag, mae enghreifftiau o welliant. Mae'r strategaeth Gydgomisiynu ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ym Mhowys 2015-2020 yn nodi nifer o fwriadau gan gynnwys rhoi mwy o gymorth i fentrau cymdeithasol er mwyn datblygu'r farchnad darparwyr, dadansoddi anghenion tymor hwy a chanlyniadau yr anelir at eu cyflawni drwy drefniadau cydweithio. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys camau gweithredu i greu cyfleoedd ehangach i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr gael cymorth a gwybodaeth ategol.

2.37 Yn yr un modd, mae Dinas a Sir Caerdydd wedi cwblhau dadansoddiad o gyflenwyr a bylchau ac wedi nodi bod angen datblygu mwy o wasanaethau byw â chymorth. Mae sawl awdurdod hefyd yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu er mwyn nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau. Mae Datganiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar Sefyllfa'r Farchnad Gofal Cymdeithasol yn nodi sut y gall ddefnyddio gwaith comisiynu i wella'r farchnad gofal leol. Mae gan rai awdurdodau lleol ffocws clir ar ddatblygu'r farchnad darparwyr, gan ychwanegu gwerth cymdeithasol a gwella llesiant drwy waith comisiynu. Mae'r rhain yn cynnwys Strategaeth GIG Dyfnaint/Cyngor Sir Dyfnaint ar y Cyd ar gyfer Comisiynu Gwerth Cymdeithasol[21].


2.38 Mae llywio'r farchnad yn her i awdurdodau lleol ledled y DU. Mae adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol, Market shaping and commissioning[22], a gyhoeddwyd yn 2016, yn nodi llinell sylfaen yn Lloegr ar gyfer comisiynwyr anableddau dysgu ac yn nodi bod 'many councils identified understanding and development of the market as a key priority'. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ein cyfweliadau â darparwyr a staff awdurdodau lleol a dynnodd sylw at yr angen i sicrhau dealltwriaeth gyffredin ac i awdurdodau lleol ddatblygu fframweithiau comisiynu ar y cyd.

2.39 Mae darparwyr hefyd yn nodi bod gwaith comisiynu mwy effeithiol yn aml yn digwydd pan gaiff staff y cyfle i gymryd risgiau a reolir yn dda a phan fydd ganddynt fwy o ryddid i wneud newidiadau. Nodwyd gennym fod awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt well sgiliau nag adnoddau gyda 10 awdurdod lleol yn nodi nad oes ganddynt yr adnoddau i gomisiynu gwasanaethau. Mae hyn yn awgrymu bod y sgiliau a'r arbenigedd y gall awdurdodau lleol eu defnyddio yn fwy o ffactor na nifer y staff comisiynu a gyflogir ganddynt.

21 Democracy.Devon.CIG Details a Devonhealthandwellbeing
22 www.local.gov.uk/our-support/our-improvement-offer/care-and-health-improvement/care-and-support-reform/implementation/general-duties/market-shaping

# Rhan 3

## Mae dulliau aneffeithiol o werthuso canlyniadau gwasanaethau anableddau dysgu yn golygu nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gallu dangos effaith gadarnhaol eu dewisiadau o ran comisiynu llety



3.1 Mae awdurdodau lleol yn rhoi pwys ar y data am anghenion gofal pobl ag anableddau dysgu a'r graddau y mae canlyniadau da yn cael eu cyflawni drwy'r llety a ddarperir ganddynt. Fodd bynnag, yn rhy aml mae awdurdodau lleol yn mesur yr hyn sy'n hawdd yn hytrach na'r hyn sy'n briodol. Yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd yw canolbwyntio ar y canlyniadau y mae gwasanaethau yn eu cyflawni i bobl, ac mae sicrhau'r canlyniadau cywir yn allweddol i waith comisiynu llwyddiannus. Mae'n anodd i awdurdodau lleol lunio casgliadau clir ynghylch yr effaith a gaiff dewisiadau llety, ymyriadau neu gymorth penodol ar lesiant am nad ydynt yn monitro nac yn gwerthuso trefniadau comisiynu nac yn adolygu cynlluniau gofal unigolion yn systematig. Yn y Rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau monitro a gwerthuso i oruchwylio perfformiad awdurdodau wrth gomisiynu gwasanaethau llety anableddau dysgu.

## Nid yw llawer o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau canlyniadau clir i'w galluogi i farnu effaith eu gweithgarwch comisiynu

3.2 Prin oedd y dystiolaeth a nodwyd gennym o waith comisiynu yn seiliedig ar ganlyniadau, er bod awdurdodau lleol yn aml wedi nodi eu bod yn comisiynu er mwyn gwella canlyniadau. Mae dulliau gweithredu presennol awdurdodau lleol yn parhau i ganolbwyntio gormod ar fewnbwn ac allbwn a dangosyddion trafodol megis cyfrif nifer y pecynnau gofal seiliedig ar lety, cost y gwasanaethau hyn neu foddhad pobl ag anableddau dysgu. Er ei bod yn gymharol hawdd olrhain y rhain ac adrodd arnynt ac er eu bod yn cynnig man cychwyn defnyddiol i farnu gwasanaethau, nid ydynt yn mesur yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl ag anableddau dysgu nac yn darparu fawr ddim gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau nac effaith fuddiol dewisiadau comisiynu ar lesiant unigolyn na'i ofalwr.

3.3 Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol yr anawsterau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran deall a diffinio canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu. Er enghraifft, dim ond hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg a nododd eu bod wedi pennu canlyniadau ar gyfer anableddau dysgu mewn cynlluniau a strategaethau corfforaethol a gwasanaeth-benodol. Adlewyrchodd ein hadolygiad o ddogfennau strategol ar gyfer anableddau dysgu ganfyddiadau ein harolwg, gan nodi nad yw llawer o awdurdodau lleol wedi pennu ystod briodol a chytbwys o fesurau canlyniadau eto, sy'n golygu na allant werthuso effaith eu gwaith.

3.4 Mae gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr i nodi beth sy'n gweithio'n a pham yn agwedd bwysig ar y gwaith comisiynu. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau y bydd trefniadau gofal a chymorth pobl ag anableddau dysgu yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol a bod llety yn briodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae cyfrifoldebau a gofynion ar gyfer adolygu cynllun gofal unigolyn yn glir. Mae Rhan 4 o God Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud ag adolygu cynlluniau gofal[23] yn nodi bod 'rhaid i awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth... mae'n rhaid adolygu'r cynlluniau yn gyson'. Mae'r ffaith na chynhelir adolygiadau rheolaidd yn golygu ei bod yn bosibl nad yw anghenion cleient yn cael eu diwallu gan ymyriadau presennol a'i bod yn bosibl nad yw'r effaith ar ei lesiant wedi'i phrofi. Gallai diffyg gwaith adolygu hefyd olygu nad yw pobl ag anableddau dysgu yn cael y lleoliadau mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.

3.5 Nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ei hadroddiad, Arolygiad Cenedlaethol o Ofal a Chymorth i Bobl ag Anableddau Dysgu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016, 'oedi wrth adolygu cynlluniau gofal... roedd manylion am gynnwys cynlluniau gofal ar goll' a bod 'y broses o adolygu cynlluniau gofal yn llai cadarn ac uchelgeisiol pan oedd pobl mewn lleoliadau cymharol sefydlog'. Adlewyrchwyd y casgliadau hyn yn ein gwaith maes lle y dywedodd staff awdurdodau lleol a chynrychiolwyr darparwyr wrthym nad yw cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n systematig nac yn gyson yn aml. Nid yw gwerthusiadau awdurdodau lleol o gynlluniau gofal yn cysylltu gweithgarwch darparwyr a gwelliannau i lesiant. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad nad yw awdurdodau lleol bob amser yn adolygu cynlluniau gofal yn systematig er mwyn darparu tystiolaeth o welliannau i lesiant pobl ac nad yw awdurdodau yn gwerthuso themâu cyffredin a chanfyddiadau rheolaidd ar gyfer pob un o'u cynlluniau gofal ychwaith.

3.6 Cydnabyddir bod atgyfnerthu gweithgarwch ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr ynghylch y gwasanaethau llety y maent yn eu cael yn faes i'w wella gan bob awdurdod lleol y buom yn gwneud gwaith maes ag ef. Nodwyd gennym mai dim ond dau o bob tri awdurdod lleol sy'n defnyddio lefelau boddhad defnyddwyr gwasanaethau i adolygu perfformiad darparwyr. Nododd rheolwr gwasanaethau mewn un awdurdod lleol, 'the system is output-driven, and cannot quantify the importance of service user's views. How can you balance value for money with the impact of a change in provider? Also, they have lots of evaluative data from users, contract monitoring, etc. but are not very good at aggregating this to measure overall quality and impact, or drive improvements in services'.

23 socialcare.wales/hub/reviewingCarePlans


3.7 Mae darparwyr y gwnaethom siarad â hwy yn nodi amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu anghyson a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fonitro contractau. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys yn systematig yn y gwaith o graffu ar y modd y darperir gwasanaethau. Gall awdurdodau lleol sy'n cynnwys defnyddwyr mewn trafodaethau ynghylch contractau, gan gynnwys y broses derfynol o ddewis darparwyr, megis Dinas a Sir Caerdydd, gyfeirio at welliannau mewn lefelau boddhad cleientiaid ac argaeledd amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud defnydd llawn o wybodaeth am lefelau boddhad a chwynion gan bobl ag anableddau dysgu. Nododd grwpiau eirioli y gwnaethom siarad â hwy, ar sail eu profiad hwy, y gallai awdurdodau lleol, ar y cyfan, wneud mwy i gasglu adborth mewn ffordd strategol yn hytrach nac ymgymryd â gwaith ymgynghori fel 'sgwrs osod, untro'.

## Mae prosesau goruchwylio a chraffu ar berfformiad amrywiol yn rhwystro gwaith gwerthuso


3.8 Deëllir manteision gwaith craffu effeithiol yn dda gan awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad eu gwasanaethau anableddau dysgu. Nododd ein harolwg o reolwyr gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am anableddau dysgu fod pob un o'r awdurdodau yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i Aelodau etholedig a bod swyddogion mewn 18 o awdurdodau o'r farn bod Aelodau etholedig yn craffu ar wasanaethau anableddau dysgu yn effeithiol. Adlewyrchir hyn yn ein gwaith maes lle y nodwyd bod Aelodau etholedig yn cymryd diddordeb cynyddol ym maes anableddau dysgu gan gydnabod y gall gynyddu rôl ac effaith gwaith craffu wella'r ffocws ar ganlyniadau i bobl.

3.9 Fodd bynnag, nodwyd gennym hefyd fod gweithgarwch ymgysylltu at ddibenion craffu yn parhau i ganolbwyntio gormod ar y ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn hytrach na gwaith cynllunio hirdymor a gwerthuso'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr. Er enghraifft, dengys ein harchwiliad o amrywiaeth eang o adroddiadau Craffu a Phwyllgor cynghorau am anableddau dysgu mai cyfyngedig iawn yw'r trafodaethau a'r herio gan Aelodau a bod gormod o ffocws ar fewnbynnau ac allbynnau gwasanaethau yn hytrach na gwerthuso effaith a chanlyniadau. Daeth rheolwr gwasanaethau mewn un awdurdod lleol i'r casgliad fod gwaith craffu ar anableddau dysgu yn digwydd ar hap a damwain yn ei awdurdod '– in the last 18 months we have been to scrutiny twice around people with Learning Disabilities. There is more interest but if that is effective, I would not like to say… It comes down to people's own experiences and interest in some areas as to whether they can scrutinise effectively'.


Dengys ein hymchwil nad oes unrhyw batrwm na rhesymeg amlwg megis amodau'r farchnad, materion rhanbarthol neu fath o fodel gwasanaeth sy'n helpu i esbonio neu gyfiawnhau amrywiadau mewn gwariant. Felly, rydym o'r farn ei bod yn fwy tebygol mai ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gost lleoliadau anableddau dysgu, sef y ffactorau canlynol yn benodol:



- effeithiolrwydd a dull gweithredu aelodau o dîm comisiynu pob awdurdod, eu sgiliau a'u galluoedd i negodi, herio a phennu costau priodol



- nifer ac amrywiaeth y staff a gyflogir a'r ffordd y maent yn ymgysylltu â darparwyr gofal allanol ac yn eu rheoli



- y systemau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir i gomisiynu gwasanaethau, yn enwedig y cysylltiad rhwng dulliau corfforaethol o gaffael a chomisiynu gofal cymdeithasol



- cadernid asesiadau o anghenion a gwaith cynllunio strategol sy'n ategu'r dewisiadau a wneir gan awdurdodau;



- cryfder y gwaith craffu a goruchwylio a wneir mewn perthynas â'r system gomisiynu er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei wella

3.10 Mae awdurdodau lleol sy’n perfformio’n well yn annog gwaith craffu gweithredol a rheolaidd ac mae ganddynt systemau a phrosesau effeithiol sy’n galluogi gwaith goruchwylio. Er bod rhai adroddiadau craffu megis adroddiad a thrafodaeth Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd (2015) ynghylch y Newidiadau i’r Gwasanaethau Anableddau Dysgu yn dangos bod Aelodau yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn ceisio sicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau, nid yw sawl adroddiad a adolygwyd gennym yn cynnwys y lefel hon o ystyriaeth strategol. Er enghraifft, nid yw sawl adolygiad craffu o anableddau dysgu yn ystyried effaith cyni cyllidol, y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd ynglŷn â Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol na’r newidiadau diweddar i fudd-daliadau a lwfans gofalwyr ar bobl ag anableddau dysgu a’u gofalwyr. O ganlyniad, gall gweithgarwch goruchwylio perfformiad fod yn gyfyngedig ac nid yw comisiynwyr gwasanaethau anableddau dysgu bob amser yn cael eu herio’n effeithiol nac yn cael gwaith ymchwil cyfredol sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

3.11 Nododd ein harolwg fod effeithiolrwydd awdurdodau wrth fonitro gwaith darparwyr yn amrywio. Er bod 19 o awdurdodau lleol yn adolygu perfformiad darparwyr yn rheolaidd, dim ond naw awdurdod a ehangodd eu sail dystiolaeth er mwyn defnyddio canfyddiadau adolygiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Er bod pob awdurdod lleol yn cydnabod ei bod yn bwysig monitro perfformiad ariannol a gwariant ar gontractau, dim ond 12 sy'n meincnodi cost comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu gan ddarparwyr gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

3.12 Mae 14 o awdurdodau yn nodi eu bod wedi pennu perfformiad darparwyr yn erbyn targedau a chanlyniadau â blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt a'u bod yn eu gwerthuso'n rheolaidd. O'n hadolygiad o bapurau craffu a dogfennau strategaeth, nodwyd gennym fod y gwaith o werthuso canlyniadau llesiant yn tueddu i fod yn seiliedig ar niferoedd a/neu adborth anecdotaidd ac nad yw perfformiad cofnodedig, yn rhy aml, yn rhoi digon o ystyriaeth i ansawdd bywyd na newidiadau mewn ymddygiad megis gwell cydnerthedd personol. Mae'r ffaith nad oes mesurau llwyddiant clir yn golygu na all awdurdodau ddangos yn glir y manteision ariannol a'r gwelliant yn ansawdd gwasanaethau sy'n deillio o'u gweithgarwch a'u dewisiadau comisiynu. Daeth adroddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar ddefnyddio gweithgarwch craffu i lywio canlyniadau a gwella ansawdd bywyd i bobl ag anableddau dysgu[24], a gyhoeddwyd yn 2017, i'r casgliad bod 'people's experience of external scrutiny in relation to learning disability was very mixed…' a bod 'Access to good data and insight is essential to be able to understand the health and social needs of people with learning disabilities.'

3.13 Er bod gan lawer o wasanaethau awdurdodau lleol gydberthnasau cadarnhaol â grwpiau eirioli, mae rhai awdurdodau yn llai llwyddiannus wrth gynnwys gofalwyr a grwpiau cymorth yn y broses o graffu ar ansawdd gwasanaethau a gwneud sylwadau arno. Mae grwpiau eirioli y gwnaethom siarad â hwy am gael eu cynnwys yn fwy rheolaidd yn y gwaith o fonitro a chyfleu perfformiad sy'n cael ei ysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall a mynegwyd pryderon nad yw'r systemau presennol i oruchwylio perfformiad yn effeithiol.

24 www.scld.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/Scrutiny-Report-1.3.17.pdf

# Atodiadau



# Atodiad 1: Methodoleg yr Astudiaeth

## Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau gan gynnwys:

- dogfennau polisi a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru;
- canllawiau caffael a chomisiynu awdurdodau lleol, yn ogystal â chynlluniau a strategaethau ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu; a
- gwaith ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill a luniwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, yr ADSS, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chyrff ymchwil.

## Cyfweliadau Cenedlaethol

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), Anabledd Dysgu Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Mencap Cymru, fforwm Cymru gyfan i ofalwyr a rhieni a darparwyr eraill yn y trydydd sector.

## Dadansoddi data ac ystadegau

Rydym wedi coladu ac wedi dadansoddi amrywiaeth eang o ffurflenni dangosyddion perfformiad a data cyllidebol sydd ar gael ar-lein yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol a StatsCymru ac amcanestyniadau o'r boblogaeth a luniwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## Gwaith maes awdurdodau lleol a chymdeithasau tai

Ymwelwyd â phum awdurdod lleol yn 2016-17. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau dinesig, trefol a gwledig ac awdurdodau dyffrynnoedd, sydd wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru. Y safleoedd a ddewiswyd ar gyfer y gwaith maes oedd:

- Cyngor Sir Dinas Caerdydd;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; a
- Chyngor Sir Ynys Môn

Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff ac Aelodau etholedig.

## Arolygon

Cynhaliwyd arolwg ag uwch reolwyr sydd â chyfrifoldebau o fewn awdurdodau lleol am wasanaethau anableddau dysgu.

# Atodiad 2: Nifer y bobl 16 oed a throsodd sydd ag anableddau dysgu a gynorthwywyd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol 2008-09 a 2015-16

Dengys yr Arddangosyn, er bod nifer y bobl ag anableddau dysgu y darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol ar eu cyfer wedi cynyddu 8.4% yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, fod lefelau cymorth yn dechrau gostwng a'u bod wedi gostwng 1.2% rhwng 2014-15 a 2015-16. Yn gymesur, mae angen lefelau uwch o gymorth ar y bobl hynny sy'n 65 oed a throsodd.

Arddangosyn 9 – Nifer y bobl 16 oed a throsodd sydd ag anableddau dysgu a gynorthwywyd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol 2008-09 a 2015-16

| Blwyddyn | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl 16 oed a throsodd a gynorthwywyd | 11,046 | 11,578 | 11,355 | 11,803 | 12,260 | 12,272 | 12,168 | 12,014 |
| Newid % dros amser yn erbyn blwyddyn sylfaenol 2008-09 ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd | N/A | 4.8% | 2.8% | 6.8% | 11% | 11.1% | 10.1% | 8.7% |
| Newid % gan gymharu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd | N/A | 4.8% | -1.9% | 4% | 3.9% | 0.1% | 0.8% | -1.2% |
| Nifer y bobl 65 oed a throsodd a gynorthwywyd | 862 | 931 | 934 | 1,001 | 1,046 | 1,107 | 1,129 | 1,168 |
| Newid % dros amser yn erbyn blwyddyn sylfaenol 2008-09 ar gyfer y rhai dros 65 oed | N/A | 8% | 8.4% | 16.1% | 21.4% | 28.4% | 31% | 35.6% |
| Newid % gan gymharu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y rhai dros 65 oed | N/A | 8% | 0.3% | 7.2% | 4.5% | 5.8% | 2% | 3.5% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

# Atodiad 3: Y newid mewn termau real mewn gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol ar gyfer pobl 16 oed a throsodd rhwng 2009-10 a 2015-16

Arddangosyn 10 – Y newid mewn termau real mewn gwariant ar wasanaethau llety anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol ar gyfer pobl 16 oed a throsodd rhwng 2009-10 a 2015-16

| Awdurdod Lleol | 2008-09 £'000 | 2009-10 £'000 | 2010-11 £'000 | 2011-12 £'000 | 2012-13 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 19,466 | 18,928 | 17,214 | 17,052 | 17,694 |
| Blaenau Gwent | 9,687 | 8,429 | 9,206 | 8,880 | 9,893 |
| Bro Morgannwg | 11,772 | 12,867 | 12,830 | 13,064 | 12,880 |
| Caerdydd | 35,114 | 36,840 | 38,328 | 38,180 | 39,158 |
| Caerffili | 20,209 | 20,619 | 20,624 | 19,991 | 20,021 |
| Casnewydd | 17,049 | 19,779 | 22,216 | 19,838 | 19,126 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15,894 | 19,806 | 19,386 | 19,914 | 20,904 |
| Ceredigion | 9,426 | 9,655 | 9,974 | 10,122 | 11,486 |
| Conwy | 14,663 | 16,263 | 17,536 | 17,306 | 16,463 |
| Gwynedd | 12,900 | 13,934 | 14,191 | 14,135 | 14,033 |
| Merthyr Tudful | 4,874 | 5,415 | 4,624 | 4,812 | 5,363 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,746 | 14,646 | 14,232 | 14,511 | 15,305 |
| Powys | 17,481 | 16,370 | 17,488 | 18,443 | 19,461 |
| Rhondda Cynon Taf | 26,273 | 27,553 | 27,694 | 27,214 | 25,420 |
| Sir Benfro | 10,895 | 12,355 | 13,584 | 14,579 | 15,786 |
| Sir Ddinbych | 12,068 | 11,822 | 12,828 | 12,679 | 14,272 |
| Sir Gaerfyrddin | 20,106 | 22,587 | 23,790 | 24,691 | 27,280 |
| Sir Fynwy | 10,814 | 10,846 | 11,276 | 11,103 | 10,268 |
| Sir y Fflint | 16,156 | 19,949 | 20,458 | 20,718 | 19,374 |
| Torfaen | 9,268 | 9,308 | 9,600 | 8,038 | 7,651 |
| Wrecsam | 19,588 | 20,663 | 20,280 | 19,522 | 18,907 |
| Ynys Môn | 8,892 | 11,421 | 10,967 | 10,733 | 10,124 |
| **Cymru** | **336,341** | **360,056** | **368,326** | **365,527** | **370,869** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

| 2013-14 £'000 | 2014-15 £'000 | 2015-16 £'000 | Newid £'000 | Newid mewn termau real % |
|---|---|---|---|---|
| 19,795 | 17,759 | 19,457 | -9 | -9.9 |
| 9,652 | 9,183 | 9,510 | -177 | -11.5 |
| 13,522 | 13,356 | 14,118 | 2,346 | 8.1 |
| 41,269 | 39,863 | 37,729 | 2,615 | -3.2 |
| 20,191 | 19,866 | 20,714 | 505 | -7.6 |
| 18,140 | 20,017 | 18,293 | 1,244 | -3.3 |
| 21,178 | 19,145 | 21,124 | 5,230 | 19.8 |
| 12,178 | 12,603 | 12,720 | 3,294 | 21.6 |
| 17,066 | 17,013 | 17,429 | 2,766 | 7.1 |
| 15,315 | 15,462 | 17,190 | 4,290 | 20.1 |
| 5,868 | 5,733 | 4,800 | -73 | -11.3 |
| 16,049 | 16,062 | 17,853 | 4,107 | 17 |
| 20,824 | 21,046 | 26,346 | 8,865 | 35.8 |
| 27,756 | 27,735 | 29,327 | 3,054 | 0.6 |
| 17,347 | 17,842 | 19,433 | 8,538 | 60.7 |
| 14,723 | 14,368 | 12,111 | 43 | -9.6 |
| 27,646 | 28,967 | 32,544 | 12,438 | 45.9 |
| 10,126 | 9,850 | 10,135 | -679 | -15.5 |
| 19,411 | 20,136 | 22,135 | 5,979 | 23.5 |
| 9,305 | 9,228 | 8,927 | -341 | -13.2 |
| 20,716 | 18,091 | 17,090 | -2,498 | -21.4 |
| 8,168 | 8,753 | 9,568 | 676 | -3 |
| **386,247** | **382,078** | **398,553** | **62,212** | **6.8** |

# Atodiad 4: Amcanestyniadau o’r boblogaeth ar gyfer nifer y bobl ag anabledd dysgu yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2035

Arddangosyn 11 – Bydd nifer y bobl 18 oed a throsodd ag anabledd dysgu yn cynyddu mewn 20 o’r 22 o ardaloedd awdurdod lleol

| | Y boblogaeth 18 oed a throsodd sydd ag anabledd dysgu | | Y newid a ragwelir 2015 i 2035 | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod lleol** | **2015** | **2035** | **nifer** | **%** |
| Abertawe | 4,653 | 5,208 | 555 | 11.9 |
| Blaenau Gwent | 1,305 | 1,266 | -39 | -3.0 |
| Bro Morgannwg | 2,377 | 2,517 | 140 | 5.9 |
| Caerdydd | 6,920 | 8,657 | 1,737 | 25.1 |
| Caerffili | 3,327 | 3,454 | 127 | 3.8 |
| Casnewydd | 2,736 | 3,134 | 398 | 14.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,633 | 2,696 | 63 | 2.4 |
| Ceredigion | 1,489 | 1,538 | 49 | 3.3 |
| Conwy | 2,169 | 2,196 | 27 | 1.2 |
| Gwynedd | 2,340 | 2,530 | 190 | 8.1 |
| Merthyr Tudful | 1,116 | 1,195 | 79 | 7.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,650 | 2,855 | 205 | 7.7 |
| Powys | 2,518 | 2,575 | 57 | 2.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,358 | 4,422 | 64 | 1.5 |
| Sir Benfro | 2,297 | 2,393 | 96 | 4.2 |
| Sir Ddinbych | 1,766 | 1,903 | 137 | 7.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,493 | 3,850 | 357 | 10.2 |
| Sir Fynwy | 1,718 | 1,721 | 3 | 0.2 |
| Sir y Fflint | 2,853 | 2,925 | 72 | 2.5 |
| Torfaen | 1,696 | 1,720 | 24 | 1.4 |
| Wrecsam | 2,587 | 3,076 | 489 | 18.9 |
| Ynys Môn | 1,306 | 1,282 | -24 | -1.8 |
| **Cymru** | **58,308** | **63,114** | **4,806** | **8.2** |

Ffynhonnell: www.daffodilcymru.org.uk/index.php?pageNo=354

# Atodiad 5: Amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer nifer y bobl ag anabledd dysgu a'r rhai ag anableddau dysgu cymedrol neu ddifrifol yng Nghymru rhwng 2015 a 2035 yn ôl grŵp oedran

Er y rhagwelir y bydd nifer y bobl dan 65 oed ag anabledd dysgu neu anabledd dysgu 'cymedrol neu ddifrifol' yn lleihau, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd sydd ag anabledd dysgu yn cynyddu.

Arddangosyn 12 – Amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer nifer y bobl ag anabledd dysgu a'r rhai ag anableddau dysgu cymedrol neu ddifrifol yng Nghymru rhwng 2015 a 2035 yn ôl grŵp oedran


| | Pob anabledd dysgu | | | | Anabledd dysgu 'cymedrol neu ddifrifol' | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Newid dros amser | | | | Newid dros amser | |
| **Ystod oedran** | **2015** | **2035** | **Number** | **%** | **2015** | **2035** | **Number** | **%** |
| 18-24 yrs | 8,032 | 7,702 | -330 | -4% | 1,852 | 1,837 | -15 | -1% |
| 25-34 yrs | 9,632 | 9,441 | -191 | -2% | 2,069 | 2,028 | -41 | -2% |
| 35-44 yrs | 8,913 | 10,370 | 1,457 | +16% | 2,240 | 2,618 | 378 | +17% |
| 45-54 yrs | 10,104 | 9,351 | -753 | -7% | 2,265 | 2,141 | -124 | -5% |
| 55-64 yrs | 8,641 | 8,255 | -386 | -4% | 1,873 | 1,769 | -104 | -6% |
| 65-74 yrs | 7,420 | 8,653 | 1,233 | +17% | 1,210 | 1,395 | +185 | +15% |
| 75 yrs+ | 5,566 | 9,343 | 3,777 | +68% | 565 | 910 | +345 | +61% |

Ffynhonnell: www.daffodilcymru.org.uk/index.php?pageNo=354

# Atodiad 6: Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 yn ôl awdurdod lleol wedi'u grwpio ar ôl troed Byrddau Iechyd

Mae'r data yn nodi bod gwariant yn ardaloedd rhai byrddau iechyd yn debyg, fwy neu lai, ond mewn ardaloedd eraill mae gwariant cyfartalog yn amrywio'n fawr. Yn gyffredinol, down i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad clir rhwng cost ac ardal bwrdd iechyd.

Arddangosyn 13 – Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 yn ôl awdurdod lleol wedi'u grwpio ar ôl troed Byrddau Iechyd





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

# Atodiad 7: Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 wedi'u grwpio yn ôl nodweddion daearyddol ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol

Mae gwariant y tri awdurdod dinesig a'r pum awdurdod dyffrynnoedd yn cwmpasu amrediad cost cymharol fach. Fodd bynnag, ar gyfer y grwpiau eraill ceir amrywiadau ehangach mewn gwariant cyfartalog. Yn gyffredinol, down i'r casgliad nad yw nodweddion economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol, o reidrwydd, yn dylanwadu ar gost.

Arddangosyn 14 – Gwariant cyfartalog fesul lleoliad mewn llety anableddau dysgu ar gyfer oedolion 16-65 oed yn 2015-16 wedi'u grwpio yn ôl nodweddion daearyddol ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

# Atodiad 8: Cymharu'r tri awdurdod â'r gost gyfartalog isaf ac uchaf fesul lleoliad mewn llety â'u sgôr ar gyfer defnyddio mathau gwahanol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu yn 2015-16

Dengys yr Arddangosyn y cysylltiad posibl rhwng cost gyfartalog lleoliadau a'r sgôr ar gyfer mathau gwahanol o leoliad gofal cymdeithasol. Mae'r system sgorio yn seiliedig ar '1' yn dynodi bod gan yr awdurdod, yn gymesur, y ganran uchaf o bobl ag anableddau dysgu yn y math hwn o leoliad, gyda '22' yn dynodi'r awdurdod hwnnw sydd â'r ganran isaf o ddefnydd. Dengys yr Arddangosyn nad oes cydberthynas glir rhwng cost gyfartalog lleoliad a'r math o lety gofal cymdeithasol a ddarperir.

Arddangosyn 15 – Cymharu'r tri awdurdod â'r gost gyfartalog isaf ac uchaf fesul lleoliad mewn llety â'u sgôr ar gyfer defnyddio mathau gwahanol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu yn 2015-16

| | Sgôr y tri awdurdod â'r lefel gyfartalog isaf o wariant fesul cleient | | | Sgôr y tri awdurdod â'r lefel gyfartalog uchaf o wariant fesul cleient | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o leoliad** | **Awdurdod A – gwariant cyfartalog o £22,120 fesul lleoliad** | **Awdurdod B – gwariant cyfartalog o £25,367 fesul lleoliad** | **Awdurdod C – gwariant cyfartalog o £26,343 fesul lleoliad** | **Awdurdod D – gwariant cyfartalog o £49,966 fesul lleoliad** | **Awdurdod E – gwariant cyfartalog o £55,298 fesul lleoliad** | **Awdurdod F – gwariant cyfartalog o £70,822 fesul lleoliad** |
| Ei gartref ei hun | 1 | 11 | 4 | 22 | 21 | 7 |
| Yn byw gyda rhieni neu deulu | 17 | 8 | 5 | 3 | 11 | 21 |
| Cartref maeth | 3 | 13 | =21 | =21 | 4 | 10 |
| Tai llety / byw â chymorth | 21 | 5 | 18 | 7 | 16 | 1 |
| Llety gwasanaethau iechyd | 20 | 8 | 5 | 21 | 19 | 18 |
| Cartrefi gofal awdurdodau lleol | 2 | 3 | =21 | =21 | 7 | 20 |
| Cartrefi gofal preifat neu wirfoddol | 19 | 7 | 16 | 6 | 10 | 8 |
| Mathau eraill o lety | =16 | 14 | 17 | 21 | 2 | =16 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru a gymerwyd o StatsCymru.

# Atodiad 9: Gwariant rhagamcanol ar wasanaethau llety gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu erbyn 2035

Arddangosyn 16 – Gwariant rhagamcanol ar wasanaethau llety gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu erbyn 2035

| Categori | Ein cyfrifiad | Nifer |
|---|---|---|
| Newidiadau yn y boblogaeth | Rydym wedi tybio y bydd y cynnydd rhagamcanol o 8.2% yn nifer y bobl ag anableddau dysgu a luniwyd gan Daffodil erbyn 2035 yn golygu y bydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol ar gyfran debyg o bobl yn 2035 (yn ychwanegol at y 12,014 o bobl sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd). Mae hyn yn cyfateb i 985 o bobl newydd ag anableddau dysgu y bydd angen cymorth arnynt erbyn 2035. | 985 |
| Rhagweld gwerth £1 yn 2015-16 yn ôl prisiau 2035 (gwerth mewn termau real) | Yn 2015-16 cost gymedrig (cyfartaledd cyfartaleddau) lleoliad anableddau dysgu ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol oedd £37,592.<br>Gan ddefnyddio datchwyddwyr CMC yn ôl prisiau'r farchnad i bennu gwerth £1 yn 2035, rydym wedi cymharu gwerth £1 yn 2015 a 1995 (bwlch o 20 mlynedd) sy'n tybio y bydd gwerth £1 yn cyfateb i tua £0.64 yn 2035.<br>Cyfrifir y swm sy'n gyfwerth ag arian parod mewn termau real ar gyfer cost gyfartalog lleoliad, a ragwelir yn 2035, fel a ganlyn: £37,592⁄£0.64 = £58,737 fesul lleoliad. | £58,737 |
| Cost y newid rhagamcanol yn y boblogaeth | £58,737 x 985 o bobl newydd ag anableddau dysgu. | £57.856 miliwn |
| Gwariant presennol yn cadw i fyny â chwyddiant ac yn ei ystyried | £58,737 x 12,014 o bobl ag anableddau dysgu = £705.666 miliwn.<br>Llai gwariant 2015-16 o £398.500 miliwn = £307.160 miliwn. | £307.160 miliwn |
| **Cyfanswm** | **£57.856 miliwn + £307.160 miliwn = £65.016 miliwn** | **£365.016 miliwn** |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 10: Rhestr wirio er mwyn i Aelodau etholedig oruchwylio’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau llety anableddau dysgu yn strategol

Arddangosyn 17 – Rhestr wirio er mwyn i Aelodau etholedig oruchwylio’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau llety anableddau dysgu yn strategol

| Agweddau allweddol ar waith Comisiynu Strategol | Nodweddion gwaith comisiynu strategol effeithiol | Rydym yn dda am wneud hyn | Mae angen i ni wella hyn | Nid ydym yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio Strategol**<br>• **Asesu anghenion**<br>• **Adolygu’r modd y darperir gwasanaethau**<br>• **Penderfynu ar flaenoriaethau** | Rydym yn cynnal asesiad priodol o anghenion. | | | |
| | Rydym yn adolygu ein darpariaeth bresennol ein hunain yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y farchnad ehangach. | | | |
| | Rydym yn deall anghenion pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr. | | | |
| | Rydym yn ymgynghori â phobl ag anableddau dysgu a rhanddeiliaid eraill ynghylch y ddarpariaeth bresennol. | | | |
| | Rydym yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a rhanddeiliaid eraill er mwyn casglu syniadau am ddarpariaeth yn y dyfodol ac yn cytuno ar ganlyniadau disgwyliedig. | | | |
| | Rydym yn cynnwys darparwyr gwasanaethau a chyflenwyr yn y gwaith o gasglu syniadau am ddarpariaeth yn y dyfodol a chytuno ar ganlyniadau disgwyliedig. | | | |
| | Mae gennym strategaeth a/neu fframwaith ar waith, sy'n nodi'n glir ein gweledigaeth o ran darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. | | | |
| | Rydym yn ymgysylltu â sectorau a darparwyr perthnasol eraill wrth ddatblygu ein strategaethau comisiynu. | | | |
| | Rydym yn casglu ac yn dadansoddi'r data cywir i'n galluogi i nodi lle mae angen i ni fuddsoddi ein hadnoddau. | | | |

| Agweddau allweddol ar waith Comisiynu Strategol | Nodweddion gwaith comisiynu strategol effeithiol | Rydym yn dda am wneud hyn | Mae angen i ni wella hyn | Nid ydym yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|
| **Comisiynu gwasanaethau**<br>• **Cynllunio gwasanaethau**<br>• **Llunio'r strwythur cyflenwi**<br>• **Cynllunio adnoddau a rheoli'r galw** | Rydym yn sicrhau bod ein proses dendro yn hygyrch i bob darpar gydweithredwr. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Gallwn ddangos bod gennym yr adnoddau a'r sgiliau i ymgymryd â'r broses gomisiynu strategol. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o wahodd cydweithredu. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn ystyried lefel gwasanaeth a mewnbwn arbenigol yn ein proses gomisiynu ar gamau allweddol. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn rhoi cyfle i staff gymryd risgiau a reolir yn dda ac ystyried arferion arloesol. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Mae gennym drefniadau llywodraethu a chontractau priodol ar waith â darparwyr. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Mae ein hatebion cynlluniedig yn ystyried y sefyllfa yn yr hirdymor. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn mynd ati i lywio'r farchnad cyflenwi a darparwyr. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn defnyddio'r holl wybodaeth am y galw posibl i ddeall anghenion ac ysgogi newid i gynllun gwasanaethau. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn dal data cywir a chynhwysfawr ar bobl ag anableddau dysgu er mwyn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |
| | Rydym yn comisiynu gwasanaethau y bwriedir iddynt wella canlyniadau, nid dim ond lleihau costau. | ⊗ | ⊗ | ⊗ |

| Agweddau allweddol ar waith Comisiynu Strategol | Nodweddion gwaith comisiynu strategol effeithiol | Rydym yn dda am wneud hyn | Mae angen i ni wella hyn | Nid ydym yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|
| **Monitro a gwerthuso**<br>• **Rheoli perfformiad**<br>• **Cefnogi dewis**<br>• **Ceisio barn y cyhoedd a defnyddwyr** | Mae gennym y metrigau ar waith i ddangos y gwelliannau a sicrhawyd drwy'r broses gomisiynu. | | | |
| | Rydym yn dadansoddi data er mwyn dangos gwelliannau i lesiant a chanlyniadau cymdeithasol pobl. | | | |
| | Rydym yn rhoi blaenoriaeth i waith comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau dros waith comisiynu sy'n seiliedig ar allbynnau. | | | |
| | Rydym yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu wrth gytuno ar beth a ble y mae angen i ni wella. | | | |
| | Mae ein strategaeth gomisiynu strategol yn cyfleu ein mesurau canlyniadau yn glir. | | | |
| | Caiff perfformiad ei fonitro a chreffir arno yn effeithiol, yn fewnol ac yn allanol. | | | |
| | Performance is effectively monitored and scrutinised internally and externally. | | | |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru